



Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru

Adroddiad Cynllunio
BCP21-006-02-00

Hydref 2021
Cyfrinachol

Mott MacDonald
2 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT
Y Deyrnas Unedig

T +44 (0)29 2046 7800
mottmac.com

Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru

Adroddiad Cynllunio
BCP21-006-02-00

October 2021
Cyfrinachol

Cofnod Dyroddiad ac Adolygu

Adolygiad	Dyddiad	Dechreuwr	Desg Talu	Cymeradwywr	Disgrifiydd
A	08/07	BM	CC	SP	First draft
B	03/08	BM	CC	SP	Amendment after client comments
C	01/10	MC	CC	SP	Amendment following change to proposed SDO Limitation

--

--

--

Cyfeirnod y Ddogfen:

Dosbarth Gwybodaeth:Diogel

Cyhoeddwyd y ddogfen yma yn unig ar gyfer y parti a wnaeth ei gomisiynu ac am bwrpasu neilltuol yn ymwneud â'r prosiect sydd wedi ei gapsiynu uchod. Ni ddylir ddibynnu arno gan unrhyw barti arall na'i ddefnyddio am unrhyw bwrpas arall.

Ni dderbyniwn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniad o'r ddogfen yma'n cael ei dibynnu arni gan unrhyw barti arall, neu'n cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall, neu'n cynnwys unrhyw wall neu ddiffyg sydd oherwydd gwall neu ddiffyg yn y data a ddarperir i ni gan bartion eraill.

Mae'r ddogfen yma yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo perchnogaeth deallusol. Ni ddylid ei dangos i bartion eraill heb ein caniatad ni ac oddi wrth y parti a wnaeth ei chomisiynu.

6.8	Sŵn a Dirgryniad	Error! Bookmark not defined.
6.9	Poblogaeth ac Iechyd Pobl	Error! Bookmark not defined.
6.10	Draenio Ffyrdd a'r Amgylchedd Dŵr	Error! Bookmark not defined.
6.11	Hinsawdd	Error! Bookmark not defined.
6.12	Effeithiau Cronnol	Error! Bookmark not defined.
6.13	Casgliad	Error! Bookmark not defined.

7 Casgliad **Error! Bookmark not defined.**

A. Crynodeb o'r Hanes Cynllunio Cyfagos **Error! Bookmark not defined.**

B. Adroddiad Sifftio Safle BCP21-006-07-00 28

Tablau

Tabl 3-1 Hanes Cynllunio'r Safle	8
Tabl 4-1 Polisiâu Perthnasol a Fabwysiadwyd ar hyn o bryd	5

Crynodeb Gweithredol

Penodwyd Mott MacDonald gan Lywodraeth Cymru (LIC) i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig (SDO) ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau (BCP) ar Blot 9 Parc Cybi yng Nghaergybi (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y safle'). Mae'r datblygiad yn rhan o'r trefniadau trosiannol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE), i wasanaethu gweithrediadau Porthladd Caergybi yn Ynys Môn, Gogledd Cymru.

Mae'r Adroddiad Cynllunio hwn yn darparu pecyn cynhwysfawr o wybodaeth (ynghyd â dogfennau ategol angenrheidiol a pherthnasol eraill) i ddarparu tystiolaeth ddigonol i Weinidogion Cymru i ddrafftio a gosod SDO ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau yng Ngogledd Cymru.

Mae'r adroddiad hwn a dogfennau cysylltiedig yn amlinellu hyrwyddo Safle Rheoli Ffiniau parhaol ym Mhlot 9 Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caergybi, gan gynnwys codi nifer o adeiladau (cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa), ffensys newydd, colofnau goleuo, draenio a thirlunio cysylltiedig.

Nodir manylion y gweithiau hyn yn yr adroddiad hwn, ynghyd â manylion y lluniadau sy'n cael eu cyflwyno yng nghynllun Ffiniau Llinell Goch (BCP21-006-03-00) a'r cynllun Amlen Cydsynio (BCP21-006-05-00). Mae rheolaethau i'r datblygiad fel uchder adeiladau, ardaloedd o lawr caled a byffer tirlunio y gellir eu hymgorffori yn y ddeddfwriaeth SDO hefyd wedi'u nodi i sicrhau nad yw'r datblygiad yn cyflwyno unrhyw effeithiau andwyol fel yr aseswyd yn yr adroddiad hwn a dogfennau cysylltiedig. Cyfeirir at y rhain yn gyffredinol fel 'terfynau arfaethedig'.

Mae ardal y cynllun yn 6.4 hectar ac mae'n cynnwys mwy na 5 hectar o ddatblygiad dibreswyl. Mae'r cynllun yn ddatblygiad Atodlen 2 gan ei fod hefyd wedi'i leoli mewn ardal sensitif. Cynhyrwyd Adroddiad Amgylchedd (BCP21-002-00-00) sy'n dod i'r casgliad, gyda lliniaru priodol a'r terfynau arfaethedig a amlinellir yn yr Amlen Cydsynio arfaethedig (sy'n cynnwys y cynllun Amlen Cydsynio (BCP21-006-05-00) a'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00)), nad yw'r cynllun yn cyflwyno unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ac felly mae'n ystyried na fyddai'r cynllun yn cynnwys datblygiad AEA.

Dengys y pecyn tystiolaeth hwn bod egwyddor y datblygiad yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, megis Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040, yn yr ystyr ei fod yn hanfodol i weithrediad parhaus Porthladd Caergybi ac yn cefnogi datblygiad cynaliadwy Cymru yn y dyfodol. Rhoddwyd ystyriaeth i ddyraniad y safle mewn AHNE, gyda lliniaru wedi'i ymgorffori yn y cyfyngiadau SDO i sicrhau nad yw'r datblygiad yn effeithio'n sylweddol ar nodweddion allweddol yr AHNE. Mae lleoliad a dyluniad y cynllun yn cadw at y polisi a nodir yn y cynllun datblygu lleol, mae ar safle a ddyrannwyd at ddefnydd busnes, ac fe'i cynlluniwyd i liniaru unrhyw effeithiau ar y gymuned gyfagos gymaint â phosibl.

Cynhaliwyd ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gydol y broses ddylunio, a rhoddwyd cyfle i'r grwpiau rhanddeiliaid cymunedol a thechnegol wneud sylwadau ar y cynllun. Bu'r ymgysylltu yn ystyrion trwy ddilyn egwyddorion Gunning. Gellir dangos hyn trwy dull dylunio hyblyg hyd yma sydd wedi cynnwys newidiadau i ddarparu ar gyfer yr ymatebion a dderbyniwyd. At hynny, cynigir ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned cyn ac ar ôl i'r SDO gael ei wneud, a thrwy gydol y cyfnod adeiladu.

Ystyrir bod tystiolaeth a gyflwynir yn ddigonol i gefnogi drafftio SDO i'w ystyried gan Weinidogion Cymru, gyda'r bwriad o ddod â deddfwriaeth i rym a fyddai'n galluogi datblygiad y BCP ym Mharc Cybi.

1 Cyflwyniad

Penodwyd Mott MacDonald gan Lywodraeth Cymru (LIC) i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig (SDO) ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau (BCP) ar Blot 9 Parc Cybi yng Nghaergybi (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y safle'). Mae'r datblygiad yn rhan o'r trefniadau trosiannol sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) o'r Undeb Ewropeaidd (UE), i wasanaethu gweithrediadau Porthladd Caergybi yn Ynys Môn, Gogledd Cymru.

1.1 Pwrpas yr Adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd i gefnogi Gweinidogion Cymru wrth ddrafftio SDO ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau (BCP) parhaol ym Mhlot 9 Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caergybi, gan gynnwys codi nifer o adeiladau (cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa), ffensys newydd, colofnau goleuo, draenio a thirlunio cysylltiedig.

Gofynnir am SDO i ganiatáu BCP parhaol gyda'r asesiad o effeithiau yn cael ei gynnal ar y sail hon. Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig nodi mai dim ond cyhyd ag sy'n angenrheidiol y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal BCP. Mae'r angen am y BCP yn dibynnu ar lif masnach, telerau bargeinion masnach a drafodir gan Lywodraeth y DU yn ogystal â datblygu technolegau a allai ddarparu atebion amgen yn y dyfodol; mae pob un ohonynt yn amhenodol ar hyn o bryd. Trwy gydol gweddill yr adroddiad hwn a'r dogfennau cysylltiedig, cyfeirir at y BCP fel datblygiad parhaol, gan mai ar y sail hon y ceisir yr SDO.

Cynigir y bydd yr SDO yn sefydlu caniatâd ar gyfer "Amlen Gydsynio" Rochdale". Mae amlen gydsynio "Rochdale" (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel yr 'Amlen Gydsynio') yn amlinellu terfynau asessedig uchaf y datblygiad, y bydd yr holl ddatblygiad yn gyfyngedig iddynt. Yn cyd-fynd â'r cynllun Amlen Gydsynio (BCP21-006-05-00) mae'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00) sy'n manylu ymhellach ar y terfynau arfaethedig i liniaru effeithiau posibl y datblygiad. Bydd y cynllun Amlen Gydsynio a'r cyfyngiadau cysylltiedig yn sicrhau nad yw dyluniad terfynol y BCP yn sbarduno effeithiau amgylcheddol sylweddol, tra hefyd yn caniatáu graddfa briodol o hyblygrwydd o ran dyluniad.

Mae'r Adroddiad Cynllunio yn amlinellu'r dull o ymdrin â'r Amlen Gydsynio ac yn dangos ei bod yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol a lleol perthnasol. Mae hefyd yn nodi'r ystyriaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â datblygiad y BCP a'r terfynau sy'n ofynnol i liniaru effeithiau posibl y datblygiad.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 1 Cyflwyniad:** Yn darparu'r angen am y datblygiad
- **Pennod 2 Disgrifiad o'r Datblygiad:** Yn darparu disgrifiad o'r datblygiad ar gyfer y BCP
- **Pennod 3 Hanes Cynllunio:** Yn darparu manylion am yr hanes cynllunio sy'n berthnasol i'r cynnig
- **Pennod 4 Polisiâu Cynllunio Perthnasol:** Yn nodi'r polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol sy'n berthnasol i'r safle a'r datblygiad
- **Pennod 5 Ystyriaethau Cynllunio:** Yn darparu dadansoddiad o'r materion cynllunio allweddol gan gynnwys y broses o ddewis safleoedd, addasrwydd ac argaeledd y tir.
- **Pennod 6 Ystyriaethau Perthnasol:** Yn darparu asesiad o'r ystyriaethau sylweddol sy'n berthnasol i benderfynu ar y cyflwyniad hwn

- **Pennod 7 Casgliadau:** Yn darparu crynodeb cyffredinol o'r datblygiad arfaethedig a chydymffurfiad â'r Gorchymyn.

Dylid darllen yr Adroddiad hwn ar y cyd â'r dogfennau cysylltiedig canlynol:

- BCP21-002-00-00: Adroddiad Amgylcheddol
- BCP21-005-00-00: Datganiad Trafnidiaeth
- BCP21-006-03-00: Cynllun Ffiniau Llinell Goch
- BCP21-006-04-00: Taenlen Cyfyngiadau SDO
- BCP21-006-05-00: Cynllun Amlen Gydsynio
- BCP21-006-06-00: Adroddiad Ymgysylltu Ymgynghori
- BCP21-007-00-00: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

1.2 Yr Angen am SDO

O ystyried pwysigrwydd cenedlaethol darparu seilwaith ffiniau yn amserol, gofynnir am gydsyniad trwy Orchymyn Datblygu Arbennig (SDO) o dan ddarpariaethau Adrannau 59 a 60 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Y Ddeddf).

Mae adran 59 o'r Ddeddf yn galluogi rhoi gorchymynion arbennig, ac yn caniatáu pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn datblygu o'r fath. Gellir rhoi caniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu naill ai'n ddiamed neu'n ddarostyngedig i unrhyw amodau neu gyfyngiadau a bennir yn y gorchymyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrechu i weithio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) i gyflawni cynnig sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Byddai'r SDO yn darparu caniatâd parhaol ar gyfer safle rheoli ffiniau, gan nodi paramedrau datblygu y camau adeiladu a gweithredol ar gyfer y cyfleuster. Pe na bai angen safle rheoli ffiniau ar y safle mwyach, byddai angen gwneud cais TCPA i Gyngor Sir Ynys Môn i newid y defnydd neu ddatblygiad dilynol y safle.

1.3 Safle Rheoli Ffiniau

Mae Erthygl 64 o Reoliad Rheolaeth Swyddogol (UE) 2017/625 ar reolaethau swyddogol (OCR) yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer BCPau. I gael ei ddynodi'n Safle Rheoli Ffiniau gan yr awdurdod cymwys, rhaid i BCPau gydymffurfio â'r gofynion ar gyfleusterau, offer a staff fel y nodir yn Erthygl 64 (3). Mae hyn yn cynnwys:

- Bod â nifer ddigonol o staff â chymwysterau addas;
- Adeiladau a chyfleusterau sy'n briodol i natur nifer y llwythi;
- Offer i alluogi perfformiad gwiriadau, gan gynnwys offer TG;
- Mynediad i wasanaeth labordai swyddogol; a
- Threfniadau ar waith i atal risgiau traws-halogi a chydymffurfio â safonau bioddigolwch.

Nodir safonau bioddigolwch yn Rheoliad 2019/1014 y Comisiwn, sy'n cynnwys y gofynion canlynol:

- Ardaloedd dadlwytho;
- Ystafelloedd/ardaloedd arolygu;
- Cyfleusterau storio; ac
- Ystafelloedd newid

1.4 Yr Angen am y Datblygiad

Ar 31 Ionawr 2020, gadawodd y DU yr UE yn ffurfiol a chychwyn cyfnod pontio o 11 mis a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2020. O hyn ymlaen, mae rheolau a rheoliadau tollau newydd y DU ar waith ar gyfer yr holl nwyddau Glanweithdra a Ffytioechydol ("SPS") sy'n dod i mewn i'r DU o'r UE, yn debyg i'r trefniadau gyda chenhedloedd y tu allan i'r UE.

Bellach mae angen i nwyddau SPS gan gynnwys planhigion, cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid, anifeiliaid byw a bwyd risg uchel a phorthiant anifeiliaid nad yw o darddiad anifeiliaid o'r UE, ddod i mewn i Brydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) trwy BCP. Yn y BCP, bydd nwyddau SPS yn destun gwiriadau rheoli swyddogol sydd yn cael eu hanelu'n bennaf at ddiogelu bio-ddiogelwch y DU. Mae'r rheol hon eisoes ar waith ar gyfer nwyddau SPS sy'n cyrraedd o wledydd y tu allan i'r UE. Yn unol â hynny, bydd angen i borthladdoedd sy'n derbyn anifeiliaid a nwyddau o'r UE neu o wlad y tu allan i'r UE gael eu dynodi'n BCP gan yr awdurdod cymwys. Yng Nghymru, yr awdurdod cymwys yw LIC.

Mae pwrpas y datblygiad arfaethedig hwn yn hanfodol i gynnal llif masnach SPS a chaniatáu i nwyddau groesi ffiniau gyda'r ffrithiant lleiaf. Bydd yn darparu'r seilwaith angenrheidiol i alluogi llif masnach i'r UE ac oddi yno yn dilyn diwedd cyfnod pontio'r UE.

Bydd yr SDO y gofynnir amdano yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu sy'n cynnwys defnyddio tir ar Blot 9 Parc Cybi yng Nghaergybi ar gyfer BCP.

2 Disgrifiad o'r Datblygiad

2.1 Lleoliad a Disgrifiad o'r Safle

Mae'r safle yn cynnwys 6.4ha ac mae wedi'i leoli ar dir i'r de orllewin o Barc Cybi ym Mhlot 9 ar gyrion Caergybi, ac ar hyn o bryd ceir yno ardal o lawr caled wedi'i amgylchynu â phocedi cyfyngedig o lystyiant a brigadau creigiog, wedi'i ffinio gan ffens ffin cadw stoc. Mae'r safle ym mherchenogaeth Llywodraeth Cymru

Ceir mynediad i'r safle ar hyd ffordd ddosbarthu (Parc Cybi), sy'n ymestyn tua'r de o gylchfan ar yr A5153 i'r gorllewin o gyffordd 2 Gwibffordd Gogledd Cymru yr A55.

Lleolir y safle o fewn AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol) Ynys Môn/Anglesey. Ni nodwyd unrhyw nodweddion amgylcheddol eraill ar y safle.

Mae dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o fewn 2 cilometr i'r safle (fel y gwelir ar y cynllun Safleoedd Statudol (BCP21-004-00-00) a gynhwysir yn yr Adroddiad Gwerthuso Ecolegol Rhagarweiniol (BCP21-002-05-00)). Yr asedau treftadaeth agosaf yw heneb gofrestredig (Siambwr Gladdu Trefignath) sydd wedi'i lleoli o fewn 100m i'r gogledd ddwyrain o'r safle. Mae dwy heneb gofrestredig arall i'r gogledd (Maen Hir Tŷ Mawr) ac i'r de ddwyrain (Grŵp Cytiau Trearddur) o'r safle, oddeutu 500m a 650m, yn y drefn honno.

Mae'r eiddo preswyl agosaf wedi'u lleoli tua 100m i'r de orllewin o'r safle, gan ffurfio ymyl gogleddol Bae Trearddur. Mae'r llwybr troed agosaf rhyw 500m i'r de orllewin o'r safle ym mhen gogleddol Bae Trearddur. Lleolir y safle'n gyfan gwbl o fewn Parth Llifogydd A ac ystyrir mai perygl bach o lifogydd afonol neu lifogydd arfordirol/llanw a geir yno, neu ddim perygl o gwbl.

Mae rhan o'r safle eisoes wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio caniatâd cynllunio dros dro o dan Hawliau Datblygu a Ganiateir Llywodraeth Cymru i hwyluso cyfleuster stacio HGV brys yr oedd ei angen o ganlyniad i'r cyfnod pontio'n dod i ben. Mae hyn yn golygu yr ymchwiliwyd yn barod i'r buddiannau ecolegol ac archaeolegol, gydag ychydig iawn neu ddim effaith ehangach o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau.

2.2 Y Datblygiad Arfaethedig

Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio cymeradwyaeth berthnasol ar gyfer adeiladu a gweithredu Safle Rheoli Ffiniau parhaol ar Blot 9 Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caergybi, gan gynnwys codi nifer o adeiladau (cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa), ardal llawr caled ychwanegol ar gyfer trafndiaeth a pharcio, ffensys newydd, colofnau goleuadau, draeniad a thirlunio cysylltiedig.

Ceisir cymeradwyaeth ar gyfer Amlen Gydsynio "Rochdale". Mae amlen gydsynio "Rochdale" (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel yr 'Amlen Gydsynio') yn amlinellu terfynau asesedig uchaf y datblygiad, gan ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd felly yn nyluniad terfynol y cynllun. Mae'r amlen wedi'i hasesu i nodi p'un a oes effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn deillio o adeiladu a gweithredu'r Safle Rheoli Ffiniau (BCP). Ni chaniateir defnyddio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os yw'r datblygiad yn achosi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, fel y'u pennir yn unol â'r Rheoliadau AEA. Mae'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00) yn gosod terfynau mewn perthynas â'r datblygiad adeiledig a ganiateir ar y safle. Mae hefyd yn gosod terfynau i reoli'r datblygiad drwy'r camau adeiladu a gweithredu. Dylid darllen hwn ar y cyd â'r lluniad Amlen Gydsynio SDO (BCP21-006-05-00) sy'n rhoi mynegiant gofodol i'r amlen gydsynio hyblyg.

2.2.1 Cynllun Dylunio Dangosol

Byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnwys yr elfennau canlynol a fyddai'n cael eu gwireddu o fewn y terfynau a sefydlwyd gan yr Amlen Gydsynio (Cynllun Amlen Gydsynio SDO (BCP21-006-05-00) a'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00)).

- Cyfleusterau archwilio wedi'u lleoli mewn adeiladau dur ffrâm porthol ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa cysylltiedig;
- Rhwydwaith ffyrdd mewnol yn cynnwys lonydd cadw cyfochrog aml-gerbyd ("lonydd nofio") a lle parcio i gerbydau mawr;
- Lle parcio i staff;
- Seilwaith ategol fel cyfarpar mecanyddol a thrydanol, ffensys diogelwch, rheoli mynediad, teledu cylch cyfyng a cholofnau goleuadau;
- Cyfleusterau rheoli gwastraff;
- Draeniad sy'n cydymffurfio â systemau draenio cynaliadwy; a,
- Thirlunio.

Mae'r nodweddion canlynol yn fesurau lliniaru hanfodol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol fel y dangosir ar y Cynllun Amlen Gydsynio SDO:

- Byddai un prif bwynt mynediad/ymadael ar gyfer cerbydau sy'n dod i mewn i'r safle, byddai pwyntiau mynediad ac ymadael ychwanegol ond yn cael eu caniatáu ar gyfer defnydd argyfwng, ac maent i'w hadeiladu gyda glaswellt cyfnerthedig hydraidd.
- Byddai adeiladau a lloriau caled wedi'u cyfyngu i'r tir a ddynodwyd fel yr "Ardal Ddatblygadwy". O fewn yr ardal hon, byddai uchderau adeiladau wedi'u cyfyngu, a'u rhannu i dri pharth, sef 33m AOD, 28m AOD a 23m AOD. Ni fyddai datblygiad o unrhyw fath yn digwydd o fewn yr ardal a ddisgrifir fel 'Brigiad Caregog'.
- Byddai angen mesurau lliniaru sŵn, ac mae lleoliad dangosol wedi'i ddarlunio o fewn ffiniau datblygadwy'r safle.
- Byddai bwnd y dirwedd bresennol gyda choed yn cael ei gadw a'i wella.
- Byddai byfferau tirlunio ychwanegol yn cael eu darparu i ffurfio lled lleiaf o 10m o rywogaethau coed cymysg brodorol rhwng y bwnd coed presennol a'r ardal ddatblygadwy i sgrinio'r datblygiad o olygon Gorllewn-De-Orllewin o'r safle. Tuag at ran ddwyreiniol y safle, bydd y byffer tirwedd yn cynnwys dwy elfen linelllog, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol, gyda'r coed i ddarparu lleiafswm o 10m o led cyfunol.
- Byddai pwll presennol yng nghornel de ddwyreiniol y safle yn cael ei gadw.

2.2.2 Adeiladu

Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yng ngwanwyn 2020, ac yn para oddeutu wyth mis.

Ni fyddai cerbydau nwyddau trwm (HGV) y cyfnod adeiladu yn fwy na 100 o HGVs y dydd (sy'n gyfwerth â hyd at 200 o symudiadau HGV y diwrnod). Byddai mynediad i'r safle drwy'r pwynt mynediad presennol.

Mae'r gwaith adeiladu yn debygol o gynnwys y canlynol:

- Gwaith cloddio angenrheidiol lefelu'r safle;
- Symud/dymchwel arwynebau blaenorol yn rhannol a nodweddion gwanhau draenio;
- Adeiladu cyfleusterau archwilio ac adeiladau cysylltiedig;
- Mân waith i glirio llystyfiant, lle nad yw wedi'u gyfyngu gan yr Amlen Gydsynio;
- Gosod pyllau system ddraenio gynaliadwy ac ardal wlyptir;

- Darparu lloriau caled ychwanegol e.e. seilwaith ffordd a chyfarpar ategol;
- Cysylltu gwasanaethau cyfleustodau;
- Plannu tirlunio; a,
- Ffensys diogelwch o amgylch perimedr y safle.

Byddai Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei lunio gan y contractwr pan gaiff ei benodi, a fyddai'n cwmpasu unrhyw fesurau lliniaru yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol o ganlyniad i'r asesiadau amgylcheddol perthnasol. Byddai angen goleuadau dros dro, a fyddai ar lefel isel, â chwfl ac yn gyfeiriadol, a byddent yn cael eu defnyddio am yr amser lleiaf angenrheidiol.

2.2.3 Gweithredu

Byddai'r safle'n cael ei reoli gan weithredwr wedi'i benodi, a byddai angen gweithredu'r safle am 24 awr, saith niwrnod yr wythnos; fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar gerbydau nwyddau yn cyrraedd ar amserau i gyd-fynd â chroesiadau fferi yn cyrraedd porthladd Caergybi.

Byddai'n ofynnol cynnal archwiliadau ar nwyddau fel anifeiliaid, planhigion, cynnyrch o darddiad anifeiliaid, bwyd risg uchel a phorthiant nad yw o darddiad anifeiliaid. Byddai amrywiaeth o gerbydau nwyddau yn cyrraedd y safle, fel Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV), Cerbydau Nwyddau Ysgafn (LGV), cerbydau da byw a faniau cargo. Byddai cerbydau eraill ar y safle yn cynnwys cerbydau cynnal a chadw a cherbydau danfon, a thrafnidiaeth staff.

Mae'r safle wedi'i ddylunio ar y rhagdybiaeth y gellir prosesu hyd at 41 HGV mewn cyfnod 24 awr. Fodd bynnag, yn weithredol, mae hyn yn annhebygol iawn o ddigwydd. Ar gyfartaledd, byddai disgwyl i rhyw 25-30 o gerbydau nwyddau gyrraedd y safle mewn unrhyw gyfnod 24 awr.

Byddai uchafswm cyflymder o 10mya o fewn ffin y safle ar gyfer pob cerbyd. Gall cerbydau nwyddau sy'n dod i mewn ar gyfer eu gwirio giwio mewn lonydd nofio, cyn mynd ymlaen at eu hadeilad perthnasol i'w gwirio. Byddai arwyddion yn cael eu darparu i reoli traffig a byddent yn datgan bod rhaid diffodd peiriannau oni bai eu bod yn symud. Disgwylir i gerbydau fod ar y safle am unrhyw beth rhwng 30 munud a 3 awr.

Ar hyn o bryd disgwylir y byddai tua 60 o staff ar y safle ar unrhyw un adeg, yn darparu cymorth i'r adrannau neu'r rolau canlynol:

- APHA Anifeiliaid;
- APHA Planhigion;
- Awdurdod Lleol;
- Gwiriadau Dogfennau;
- Gweithrediadau / Diogelwch; a,
- Rolau staff eraill.

3 Hanes Cynllunio

Cyrchwyd yr hanes cynllunio ym mis Mawrth 2021 ac mae Tabl 3.1 yn nodi hyn mewn perthynas â Phlot 9 Parc Cybi yn unig. Mae Atodiad A yn rhestru'r hanes cynllunio perthnasol ar gyfer yr ardaloedd ger y safle.

Cynhaliwyd adolygiad o'r hanes cynllunio perthnasol gan ddefnyddio swyddogaeth fapio Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM).

Tabl 3-1 Hanes Cynllunio'r Safle

Cyfeirnod Cais	Cyfeiriad	Y Datblygiad Arfaethedig	Penderfyniad
19C842A/EIA	Tir yn Nhŷ Mawr, Caergybi	Cais amlinellol ar gyfer y datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth (B1, B2, B8), i gynnwys swyddfeydd, defnydd diwydiannol a gwesty ynghyd ag adeiladu mynediad newydd i gerbydau	Caniatawyd 7 Mawrth 2005
qA1454565 (Cyfeirnod Llywodraeth Cymru)	Plot 9, Parc Cybi, Caergybi	Cais am gyfarwyddyd sgrinio ar gyfer datblygu Plot 9 ar gyfer parcio HGVs, ynghyd â chabanau lles staff cysylltiedig, fel rhan o drefniadau ôl-Brexit Porthladd Caergybi i annog llif effeithlon traffig y briffordd, a mesurau ar gyfer symud nwyddau allan yn ddiogel.	Dim angen AEA, 14 Ionawr 2021

Crynodeb o hanes cynllunio ar Blot 9 Parc Cybi

O berthnasedd uniongyrchol i'r safle, yn ddiweddar (Ionawr 2021) darparwyd barn sgrinio ar gyfer y datblygiad dros dro ym Mhlot 9 (Cam 2), Parc Cybi, Caergybi, Ynys Môn ar gyfer peirianeg, draenio a threfniant cynllun y safle ar gyfer parcio HGVs, ynghyd â chabanau lles staff cysylltiedig, fel rhan o drefniadau Ôl-Brexit Porthladd Caergybi i annog llif effeithlon traffig y briffordd, a mesurau ar gyfer symud nwyddau allan yn ddiogel.

Mae'r ymateb a gafwyd gan LIC ar 14 Ionawr 2021 yn cadarnhau nad oedd y datblygiad yn cynnwys datblygiad AEA ac y gallai'r datblygiad fynd yn ei flaen o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Mae cydsyniadau hanesyddol ar y safle yn ymwneud â chais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth (B1, B2, B8), i gynnwys swyddfeydd, defnydd diwydiannol a gwesty ynghyd ag adeiladu mynediad i gerbydau newydd a gafodd ganiatâd ym mis Mawrth 2005 (cyf. 19C842A/EIA).

Yn ychwanegol at hyn, mae'r safle hefyd wedi'i gynnwys mewn ardal (yn ôl cronfa ddata fapio CSYM) a dderbyniodd farn gwmpasu ar gyfer datblygiad cysylltiedig ar y lan a glaniad cebl mewn cysylltiad â datblygu Parth Datblygu Llanw Morlais arfaethedig oddi ar arfordir Caergybi ym mis Ionawr 2017 (cyf. 19C1195/RE/SCO). Fodd bynnag, nid oedd penderfyniad ar gael i'r cyhoedd ac ymddengys nad oes unrhyw geisiadau pellach yn gysylltiedig â hyn ar y safle.

Crynodeb o hanes cynllunio cyfagos perthnasol

I'r gogledd-ddwyrain o'r safle ac i'r gorllewin yn y drefn honno, rhyddhawyd cais rhyddhau amod yn rhannol yn ymwneud â'r caniatâd cynllunio hybrid 46C427K/TR/EIA/ECON (cyf. DIS/2020/92) ym mis Ebrill 2021. Mae'r amod hwn yn ymwneud â'r cynllun graddoli, deunyddiau a gorffeniadau allanol, tirlunio, y CEMP rhagarweiniol a CTMP, rheoli pridd a gwastraff, canfyddiadau

ymchwiliadau archeolegol, SDCau a chynlluniau/strategaethau draenio eraill, trwyddedau rhywogaethau gwarchoddedig, y strategaeth ecolegol a'r datganiad dull, dulliau eraill sy'n gysylltiedig a llwybr yr arfordir, PRoW a'r cynllun llwybr beicio. Caniatwyd hefyd i gydymffurfio â'r A106 mewn perthynas ag ymchwilio i'r safle, asesiad labordy, strategaeth adfer ac asesiad risg i'r dwyrain o'r safle (cyf. S106/ 2020/2) ym mis Awst 2020.

Yn union i'r gogledd o'r safle ar draws ffordd Parc Cybi, cyflwynwyd cais i benderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i godi polyn telegraff 16m, gosod dwy ddysgl drawsyrro ôl-drosglwyddo, gosod cabinet telathrebu ynghyd â datblygiad ategol (cyf. D56/2020/3). Nid yw hwn wedi'i benderfynu eto.

Tua'r gorllewin ar gylchfan yr A5153/Ffordd Kingsland, cyflwynwyd barn sgrinio ar gyfer 30 annedd ym mis Ionawr 2020, a gadarnhaodd nad oedd angen AEA (cyf. AAD / 2020/1). Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau pellach.

I'r gogledd-orllewin o'r safle, cymeradwywyd cais llawn i godi adeilad i'w ddefnyddio fel lle masnach defnyddiau adeiladu gydag arwynebedd llawr warws a gwerthu (defnydd sui generis), adeiladu mynediad safle cerbydol newydd, iard storio, ardaloedd llwytho ynghyd ag ardaloedd tirlunio meddal a chaled ym mis Mehefin 2019 (cyf. AAD/2018/3, FPL/2018/25), a chais rhyddhau amodau dilynol yn rhannol ym mis Gorffennaf 2019 (cyf. DIS/2019/73).

Tua'r gogledd orllewin, cyflwynwyd barn sgrinio ar gyfer datblygu a gweithredu gwaith cynhyrchu trydan tanwydd nwy wrth gefn ymateb cyflym (7.5MW). Cadarnhawyd ym mis Awst 2019 nad oes angen AEA (cyf. SCR/2019/33).

Yn Roadking, cymeradwywyd cais ôl-weithredol i godi portacabin i'w ddefnyddio fel swyddfa (Defnydd Ddosbarth B1) ym mis Hydref 2019 (cyf. FPL/2019/208), ochr yn ochr â thanc storio/dosbarthu tanwydd 24 awr a draeniad cysylltiedig gan gynnwys ataliwr a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2018 (cyf. 19C842G/1/SCR, 19C842F/1). Mae ceisiadau hanesyddol eraill yn ymwneud â chais amlinellol i'r safle fel canolbwynt trafnidiaeth a chyfleusterau gwasanaethu ategol (cyf. 19C842P/ECON, 19C842V/ECON/DIS, 19C842W/DIS, 19C842W/DIS, 19C842B/1/DEL, a 19C842C/1/MIN), a gwesty ategol i'r safle tryciau presennol, gyda maes parcio cysylltiedig, newid y mynediad i gerbydau, seilwaith draenio a gwaith cysylltiedig arall ym mis Medi 2018 (cyf. 19C842M/1/ECON), gydag amodau yn cael eu rhyddhau'n rhannol ym mis Mehefin 2019 (cyf. DIS/2019/4).

I'r de-ddwyrain o Roadking, caniatwyd cais llawn ar gyfer codi stablau ceffylau, adeiladau a storffeydd cysylltiedig, gosod cerddwr ceffylau ynghyd ag adeiladu mynediad preifat newydd ynghlwm wrth safle tryciau presennol ym mis Ionawr 2019 (cyf. 19C842N/1/SCR, 19C842P/1). Roedd caniatâd hefyd i estyniad i Roadking tuag at y gorllewin (cyf. 19C842Z/SCR, 19C842Y). Yn hanesyddol, roedd caniatâd hefyd i adeiladu a gweithredu depo logisteg, gan gynnwys cloddwaith paratoadol, tirlunio a seilwaith cysylltiedig (cyf. 19C842Q/ECON), ond ymddengys nad yw hyn wedi'i adeiladu.

Mae ceisiadau eraill yn ymwneud â gwesty Premier Inn (cyf. 19C842E/1/TR/ECON, 19C842H/1/DIS, 19C842K/1/DIS, 19C842R/1/MIN, 19C842Q/1/DIS, MAO/2019/1). Yn hanesyddol, roedd cais am 3 uned swyddfa a 4 uned warws diwydiannol ynghyd â seilwaith a darpariaeth barcio ar dir yn ymwneud â'r Premier Inn ac i'r gogledd-ddwyrain o'r safle (cyf. 9C842J/ECON), ond ni chafodd y rhain eu hadeiladu.

4 Polisiâu Cynllunio Perthnasol

4.1 Cyflwyniad

Arweinir y system gynllunio yng Nghymru gan gynlluniau, gyda chynlluniau datblygu yn cael eu paratoi ar raddfeydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a'r tair haen gyda'i gilydd mewn cyfuniad yn cynnwys y 'cynllun datblygu'. Mae 'Cymru'r Dyfodol' yn cyfrannu haen genedlaethol y cynllun datblygu. Dylai tair haen y cynllun datblygu gael eu halinio a dylent ategu ei gilydd.

Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol, nad ydynt wedi'u paratoi eto, fod yn unol â 'Cymru'r Dyfodol'. Yn yr un modd, rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn unol â 'Cymru'r Dyfodol' a'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardal honno, pan gânt eu cynhyrchu.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dylanwadu'n gryf ar gynnwys a pholisiâu tair haen y cynllun datblygu, sef y ddogfen polisi cynllunio defnydd tir cyflawn ar gyfer Cymru ac felly mae'n sylfaen i'r holl bolisiâu cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r fframwaith cynllunio cenedlaethol hyd at y polisiâu a gynhwysir yn y cynllun datblygu lleol sy'n berthnasol i'r datblygiad arfaethedig.

4.2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2021)

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir LIC ac yn cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), Cylchlythyrau LIC, a llythyrau egluro polisi. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn darparu gwelliannau o ran llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall. Mae'n nodi:

'Mae system gynllunio sy'n gweithredu'n dda yn sylfaenol ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyflawni lleoedd cynaliadwy'

Mae'n diffinio datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

'Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.'

Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'

Mae'r egwyddorion cynllunio allweddol ar gyfer cyflawni'r datblygiad cywir yn y lle iawn yn cynnwys y canlynol:

- Hybu'r economi mewn modd cynaliadwy;
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau;
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach;
- Creu a chynnal cymunedau; a
- Gwneud y mwyaf o ddiogelu'r amgylchedd a chyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd.

Yng nghyswllt datblygiad newydd, mae'n nodi mai rheoli datblygu yw'r dull cadarnhaol a rhagweithiol o lunio, ystyried, penderfynu a darparu cynigion datblygu trwy'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n nodi ei fod yn cael ei arwain gan yr awdurdod cynllunio, gan weithio ar y cyd â'r rhai sy'n cynnig datblygiadau a rhanddeiliaid eraill.

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant cymunedau.

Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun gofodol, sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer seilwaith a datblygu er budd Cymru a'i phobl. Mae'n nodi'n glir bwysigrwydd cynllunio seilwaith a datblygiad newydd yn y fath fodd fel eu bod yn flaenoriaethau cyflenwol yn hytrach na chystadleuol, gan sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynyddu i'r eithaf a bod buddion lluosog yn cael eu cyflawni.

Yn fwy penodol, mae'r cynllun yn nodi pwysigrwydd porthladdoedd yng Nghymru fel pwyntiau cyswllt allweddol i rwydweithiau Ewropeaidd ehangach. Nodir Caergybi fel y prif borthladd ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr môr i Iwerddon, gydag Abergwaun a Phenfro yn darparu cysylltiadau teithwyr a chludo nwyddau allweddol rhwng de Cymru a de Iwerddon.

Mae *Cymru'r Dyfodol* yn cydnabod bod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ddynodiadau pwysig y dylid amddiffyn eu gwerth cynhenid rhag datblygiad amhriodol.

Mae *Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol* Cymru'r Dyfodol yn nodi Porthladd Caergybi fel porth strategol i hwyluso cysylltedd rhyngwladol. Mae'n nodi:

'Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwyr, buddsoddwyr ac awdurdodau lleol i gefnogi Pwrth Strategol a chynnal eu rolau cysylltedd rhyngwladol. Dylid rheoli datblygiad newydd o amgylch y Pwrth Strategol yn ofalus i sicrhau nad yw eu gweithrediad yn cael ei gyfyngu na'i gyfaddawdu.'

4.3 Cynllun Datblygu Statudol

Mae'r adran hon yn nodi polisiau'r cynllun datblygu statudol a ph'un a oes unrhyw ddynodiadau neu ddyraniadau allweddol sy'n ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar y cynnig.

Mae cynlluniau datblygu yn aml yn dynodi neu'n dyrannu tir at ddefnydd penodol. Mae deall p'un a oes gan y safle unrhyw ddyraniadau neu ddynodiadau yn y cynllun datblygu yn ein helpu i ddeall y cyfyngiadau allweddol i ddatblygiad ac i ffurfio strategaeth ar gyfer cael caniatâd ar y safle.

Mae'r safle o fewn awdurdodaeth Cyngor Sir Ynys Môn ac mae'r cynllun datblygu statudol yn cynnwys y canlynol:

- Cyd-gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd (CDLI) (Gorffennaf 2017)
- Y Map Cynigion a Fabwysiadwyd

Mae'r safle wedi'i dyrannu fel Safle Cyflogaeth a Ddiogelir o dan Bolisi CYF1: Diogelu, dyrannu a chadw tir ac unedau at ddefnydd cyflogaeth.

Mae Polisi CYF 1 yn cadarnhau bod y safle o fewn ardal fwy (a elwir yn Barc Cybi) sydd wedi'i diogelu ar gyfer mentrau cyflogaeth/busnes. Mae gan Barc Cybi, yn ei gyfanrwydd, gyfanswm o 109.2ha wedi'u dynodi ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8. Mae'r polisi hefyd yn cadarnhau bod y safle o fewn safle parth menter a'i fod yn cael ei nodi fel 'Safle Rhanbarthol Strategol (Prif)'.

Mae'r safle hefyd o fewn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE).

Mae'r CDLI hefyd yn nodi polisiâu i arwain datblygiad. Yng Nghynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd mae dau fath o bolisi, polisiâu strategol a pholisiâu manwl. Mae Tabl 4-1 Polisiâu Perthnasol a Fabwysiadwyd ar hyn o bryd yn darparu crynodeb o bolisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r dynodiadau safle-benodol sy'n berthnasol i'r cynllun hwn. Gellir gweld y testun polisi llawn yn y dogfennau Cynllun Lleol perthnasol ar-lein.

Tabl 4-1 Polisiâu Perthnasol a Fabwysiadwyd ar hyn o bryd

Enw'r Polisi	Crynodeb o'r Polisi
Polisiâu Strategol	
<p>Polisi Strategol PS 1: Iaith a Diwylliant Cymraeg</p>	<p>Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun. Cyflawnir hyn trwy:</p> <p>Yr angen am Ddatganiad Iaith Cymraeg, a fydd yn amddiffyn, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg, lle mae'r datblygiad arfaethedig yn dod o fewn un o'r categorïau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy <p>Yr angen am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ddelio â'r holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus a gynigir mewn cais cynllunio gan gyrrff cyhoeddus a chan gwmnïau masnachol a busnes.</p>
<p>Polisi Strategol PS 2: Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwr</p>	<p>Bydd y Cynghorau yn disgwyl i ddatblygiad newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o seilwaith hanfodol (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) naill ai eisoes ar gael neu wedi'i ddarparu'n amserol i wneud y cynnig yn dderbyniol, trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. Yn ddarostyngedig i fodloni'r profion statudol, efallai y bydd angen taliadau cynnal a chadw yn unol â chytundebau adran 106 er mwyn talu costau cychwynnol rhedeg gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddirodd a achosir gan ddatblygiad.</p> <p>Pan fo seilwaith yn hanfodol, galluogol ac angenrheidiol o ganlyniad i gynllun ac na ellir ei ddarparu ar y safle, gofynnir am gyfraniadau ariannol, o fewn terfynau a ganiateir gan ddeddfwriaeth, i gael buddsoddiad hanfodol oddi ar y safle. Os yw effaith y datblygiad yn gronnu, gellir cronni'r cyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, er mwyn lliniaru'r effaith gronnu.</p>
<p>Polisi Strategol PS 4: Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd</p>	<p>Bydd datblygiad yn cael ei leoli yn y fath fodd fel ei fod yn lleihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau sy'n sicrhau'r hygyrchedd mwyaf posibl ar gyfer pob dull trafniadwy, ond yn enwedig ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus. Cyflawnir hyn trwy sicrhau mynediad cyfleus trwy droedffyrdd, seilwaith beiciau a thrafnidiaeth gyhoeddus lle bo hynny'n briodol, a thrwy hynny annog defnyddio'r dulliau teithio hyn ar gyfer teithiau lleol a lleihau'r angen i deithio mewn car preifat.</p>
<p>Polisi Strategol PS 5: Datblygu Cynaliadwy</p>	<p>Cefnogir datblygiad lle dangosir ei fod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Rhoi blaenoriaeth i ddefnydd effeithiol o dir a seilwaith, gan flaenoriaethu aildefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen o fewn ffiniau datblygu Canolfannau Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y lleoedd mwyaf priodol y tu allan iddynt. – Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu lleoliad), gan wella dealltwriaeth, gwerthfawrogiad o'u cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a'r defnydd cynaliadwy ohonynt. – Amddiffyn a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirweddau a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a wnânt. <p>Hyrwyddo economi leol amrywiol ac ymatebol sy'n annog buddsoddiad ac a fydd yn cefnogi Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig.</p>
<p>Polisi Strategol PS 6: Lliniaru ac Addasu i Effeithiau Newid Hinsawdd</p>	<p>Er mwyn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, dim ond pan ddangosir eu bod wedi ystyried y canlynol ac wedi ymateb iddynt yn llawn y caniateir cynigion:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd gymaint â phosibl oherwydd eu safonau uchel o ddylunio, lleoliad, cynllun a dulliau adeiladu cynaliadwy. – Sicrhau nad effeithir ar allu tirweddau, amgylcheddau a rhywogaethau i addasu i effeithiau niweidiol newid yn yr hinsawdd, a bod amgylcheddau cydadferol yn cael eu darparu os oes angen.

Dylid anelu at y safon uchaf bosibl o ran effeithlonrwydd dŵr a gweithredu mesurau eraill i wrthsefyll sychder, cynnal llif dŵr a chynnal neu wella ansawdd dŵr, gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy.

Polisi Strategol PS 13: Darparu Cyfle ar gyfer Economi Ffynniannus

Wrth geisio amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, bydd y Cynghorau'n hwyluso twf economaidd yn unol â strategaeth ofodol y Cynllun trwy:

- Ddiogelu 642.9ha o dir ac unedau cyfredol ar gyfer cyflogaeth a busnes (B1, B2, B8 a rhai defnyddiau sui generis).
- Dyrannu 55.1ha o dir at ddiobenion cyflogaeth a busnes a fyddai angen neu'n elwa o leoliadau busnes neu barc diwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai defnyddiau sui generis yn ystod cyfnod y Cynllun o fewn safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn yr hierarchaeth tir cyflogaeth a'i ddyrannu ar y map cynigion.

Hwyluso safleoedd priodol a ddaw ar gael ar hap-safleoedd a allai ddiwallu unrhyw anghenion ychwanegol i'r rhai a nodir ym maen prawf 1 ac yn unol â'r egwyddorion a roddir ym Mholisi Strategol PS 5 a Polisi Strategol PS 6 a Strategaeth Ofodol y Cynllun, er mwyn sicrhau'r manteision economaidd mwyaf bosibl.

Polisi Strategol PS 19: Gwarchod a Lle Bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Bydd y Cynghorau yn rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir unigryw ardal y Cynllun, a gwrthodir cynigion sy'n cael effaith andwyol sylweddol arnynt oni bai bod angen am y datblygiad a'i fuddion yn y lleoliad a hwnnw yn amlwg yn gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a diogelwch polisi cenedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw.

Polisiâu Manwl

Polisi ISA 1: Darpariaeth Seilwaith

Dim ond pan fydd capasiti seilwaith digonol yn bodoli neu pan fydd yn cael ei gyflenwi mewn modd amserol y caniateir cynigion. Pan fydd cynigion yn cynhyrchu angen uniongyrchol gysylltiedig ar gyfer seilwaith newydd neu well ac nad yw hyn yn cael ei ddarparu gan wasanaeth neu gwmni seilwaith, rhaid i hyn gael ei ariannu gan y cynnig. Gellir ceisio cyfraniad ariannol i sicrhau gwelliannau mewn seilwaith, cyfleusterau, gwasanaethau a gwaith cysylltiedig, lle maent yn angenrheidiol i wneud cynigion yn dderbyniol.

Polisi TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Trafnidiaeth

Er mwyn hwyluso'r trosglwyddiad rhwng dulliau trafndiaeth a helpu i leihau'r galw am deithio a lleihau dibyniaeth ar geir, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol yn y Cynllun, rhoddir caniatâd i'r cynigion canlynol:

- Cyfleusterau wedi'u lleoli'n strategol o fewn neu wrth ymyl Canolfannau ar gyfer parcio lorïau dros nos a throsglwyddo nwyddau

Polisi TRA 4: Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth

Lle bo'n briodol, dylid cynllunio a dylunio cynigion mewn modd sy'n hyrwyddo'r dulliau trafndiaeth mwyaf cynaliadwy gan ystyried hierarchaeth defnyddwyr.

Gwrthodir cynigion a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, trafndiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau symud eraill gan gynnwys llwybrau cerddwyr a beicio, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffylau. Yr awdurdod lleol fydd yn pennu graddfa'r niwed annerbyniol fesul achos.

Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

Mae'r Cynllun yn nodi Ffiniau Datblygu ar gyfer y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Lleol, Pentrefi Gwasanaeth a Phentrefi Lleol/Gwledig/Arfordirol. Bydd cynigion o fewn Ffiniau Datblygu yn cael eu cymeradwyo yn unol â pholisïau a chynigion eraill y Cynllun hwn, polisiâu cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu

Dylai cynnig ddangos ei fod yn cydymffurfio â:

- Pholisïau perthnasol yn y Cynllun;
- Polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

Yn ychwanegol, gwrthodir caniatâd cynllunio lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar:

- Iechyd, diogelwch neu amwynder preswylwyr preswylfeydd lleol, defnyddiau tir ac eiddo eraill neu nodweddion yr ardal oherwydd mwy o weithgaredd, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, draeniad, llygredd golau, neu fathau eraill o lygredd neu niwsans.
- Tir wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad/defnyddiau eraill.

Polisi PCYFF 3: Dylunio a Llundio Lleoedd	Disgwylir i bob cynnig ddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n ystyried yn llawn y cydestun amgylcheddol naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac yn cyfrannu at greu lleoedd deniadol, cynaliadwy. Anogir dyluniad arloesol ac ynni effeithlon yn arbennig.
Polisi PCYFF 4: Dylunio a Thirlunio	Dylai pob cynnig integreiddio i'w hamgylchedd. Gwrthodir cynigion sy'n methu â dangos (mewn modd sy'n briodol i natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig) sut yr ystyriwyd tirlunio o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio.
Polisi PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr	Dylai cynigion ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr lle bo hynny'n ymarferol, gan gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau). Dylai pob cynnig weithredu mesurau lleihau neu liniaru llifogydd lle bo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau dŵr ffo wyneb a lleihau ei gyfraniad at risg llifogydd mewn lleoedd eraill.
Polisi CYF 1: Diogelu, Dyrannu a Chadw Tir ac Unedau at Ddefnydd Cyflogaeth	Mae tir ac unedau ar safleoedd cyflogaeth presennol a restrir isod yn cael eu diogelu ar gyfer mentrau cyflogaeth/busnes ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion. Cefnogir cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar y safleoedd a nodwyd ym Mholisi GWA 1. <ul style="list-style-type: none">– Parc Cybi, Caergybi (Safle Cynradd)
Polisi CYF 8: Ardal Adfywio Caergybi	O fewn Ardal Adfywio Caergybi bydd cynigion datblygu a fydd yn cynorthwyo newid trawsnewidiol trwy annog Caergybi i ddod yn lleoliad mwy deniadol i fyw, gweithio, ymweld a mwynhau yn cael eu cefnogi cyhyd â'u bod wedi'u cynllunio'n dda a bod ganddynt obaith realistig o gael eu gweithredu. Dylai nod unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol fod: <ul style="list-style-type: none">– Yn gefnogi i rôl Caergybi fel canolfan dwristiaeth ac fel porth i Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig.– Gwella cysylltiadau yn y dref a chyda'r Porthladd yn unol â Pholisi Strategol PS4.
Polisi AMG 1: Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Harddwch Naturiol Eithriadol	Rhaid i gynigion o fewn neu sy'n effeithio ar y lleoliad a/neu olygfeydd sylweddol i mewn ac allan o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, lle bo hynny'n briodol, ystyried y Cynllun Rheoli Harddwch Naturiol Eithriadol perthnasol.
Polisi AMG 3: Amddiffyn a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sy'n Nodedig i'r Cymeriad Tirwedd Lleol	Rhaid i gynigion a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd fel y'u diffinnir gan y Cymeriad Tirwedd, ddangos trwy asesiad tirwedd sut mae cymeriad tirwedd wedi dylanwadu ar ddyluniad, graddfa, natur a dewis safle'r datblygiad.
Polisi AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol	Rhaid i gynigion amddiffyn a, lle bo hynny'n briodol, gwella bioamrywiaeth y nodwyd ei bod yn bwysig i'r ardal leol trwy: <ul style="list-style-type: none">– Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol trwy leoliad sensitif y datblygiad.– Ystyried cyfleoedd i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwylt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwylt, cerrig camu, coed, gwrychoedd, coetiroedd a chyrsiau dŵr.
Polisi AMG 6: Amdiffyn Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol	Gwrthodir cynigion sy'n debygol o achosi niwed sylweddol uniongyrchol neu anuniongyrchol i Warchodfeydd Natur Lleol (LNR), Safleoedd Bywyd Gwylt (WS) neu safleoedd daearegol/ geomorffolegig (RIGS) sy'n bwysig yn rhanbarthol, oni bai y gellir profi bod yna angen cymdeithasol, amgylcheddol a/neu economaidd hollbwysig am y datblygiad, ac nad oes unrhyw safle addas arall a fyddai'n osgoi cael effaith niweidiol ar safleoedd o werth cadwraeth natur lleol neu bwysigrwydd daearegol lleol.
Polisi PS 20: Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth lle bo hynny'n briodol	Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwarchod a, lle bo hynny'n briodol, yn gwella eu hasedau treftadaeth unigryw.

5 Ystyriaethau Cynllunio

Mae'r bennod hon yn darparu dadansoddiad o'r materion cynllunio allweddol gan gynnwys y broses o ddewis safleoedd, addasrwydd ac argaeledd y tir a'r pwysau i'w gymhwyso i bolisiau'r cynllun datblygu perthnasol.

5.1 Proses Dewis Safle

Darparodd y broses o ddewis safleoedd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynigion safle unigol sy'n gofyn am bwerau cynllunio brys o dan y trefniadau SDO sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Roedd ymarfer gofynion safle lefel uchel yn fframio'r chwiliad safle cychwynnol. Yn dilyn hyn mae gwell dealltwriaeth o ofynion cyfleusterau yn dangos bod yn rhaid i safle BCP fod yn 6.26ha o leiaf er mwyn hwyluso'r seilwaith sy'n ofynnol i'r safle wasanaethu porthladd unigol a chydymffurfio ag Erthygl 54 o (EU)2017/625. Trwy ymgysylltu â Phorthladd Caergybi, deallwyd na ellid hwyluso'r gweithgareddau hyn o fewn ffin y porthladd ei hun. Byddai angen i faint terfynol y safle ddarparu ar gyfer lliniaru amgylcheddol digonol, a thrwy hynny arwain at arwynebedd terfynol y safle sy'n fwy na'r gofynion sylfaenol.

Canolbwyntiodd y broses o ddewis safleoedd cyn-gynllunio ar safleoedd lle y gellid lliniaru datblygiad yn ddigonol a thrwy hynny beidio â sbarduno effeithiau amgylcheddol sylweddol (gan osgoi'r gofyniad am Aseiad Effaith Amgylcheddol (AEA)) a dewis safleoedd o ddyraniad defnydd tir addas o fewn polisi cynllunio, megis seilwaith trafnidiaeth neu gyflogaeth.

I grynhoi, nodwyd Plot 9 Parc Cybi fel yr opsiwn mwyaf dewisol i'w ddwyn ymlaen fel BCP. Ar ôl pwyso a mesur, yn ddarostyngedig i ddyluniad manwl a gofynion maint manwl y safle, y gallai'r safle hwn fodloni gofynion eang LIC.

Mae'r safle o faint a thopograffi digonol i'w ddwyn ymlaen i'w ddefnyddio fel BCP ac mae'n bosibl ei gyflenwi, nid oes ganddo unrhyw heriau amgylcheddol sylweddol ac mae o fewn perchnogaeth LIC.

5.2 Dadansoddiad Cynllunio

Pwrpas y datblygiad arfaethedig yw cynnal llif masnach SPS rhwng y DU a'r UE a chaniatáu i nwyddau SPS groesi ffiniau gyda'r ffrithiant lleiaf. Bydd y gwaith yn darparu cyfleuster o'r fath ac yn caniatáu i wiriadau ffiniau SPS gael eu cynnal i wasanaethu Porthladd Caergybi.

5.2.1 Egwyddor Datblygu

Mae'r adran hon yn ceisio dangos bod egwyddor y datblygiad arfaethedig yn unol â dyheadau'r ardal fel y nodir yn y CDLI.

Mae rhan o'r safle eisoes wedi'i ddatblygu i hwyluso cyfleuster stacio HGV brys a gyflwynwyd gan ddefnyddio caniatâd dros dro ym mis Rhagfyr 2020 o dan hawliau datblygu a ganiateir gan LIC o fewn Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae gan y safle seilwaith presennol sy'n addas iawn i'r defnydd arfaethedig ar gyfer BCP, a chan fod yr angen am y safle fel cyfleuster stacio bellach wedi dod i ben, mae'r safle ar gael i'w ddefnyddio fel BCP.

Mae'r safle yn rhan o Barc Cybi sy'n destun uwchgyllun amlinellol ar gyfer parc busnes (19C842A/EIA) a gymeradwywyd yn 2004. Mae Uwchgyllun 2004 yn darparu cyd-destun ar gyfer yr uchelgeisiau tymor hir ar gyfer y Parc Busnes, ac roedd wedi nodi Plot 9 fel lleoliad posibl ar gyfer mwy na 350 o leoedd parcio ceir. Ni wnaed unrhyw geisiadau yn unol â'r uwchgyllun

hwn ar gyfer Plot 9, er bod y BCP arfaethedig yn cyd-fynd â pharamedrau'r uwchgynllun cymeradwy hwn.

Mae'r SDO a geisir ar Blot 9 yn barhaol ac yn benodol i ddatblygiad BCP. Fodd bynnag, pe na bai angen BCP mwyach i wasanaethu Porthladd Caergybi, byddai unrhyw ddatblygiad dilynol ar y safle, gan gynnwys aildefnyddio cyfleusterau BCP, yn golygu angen i gyflwyno cais ar wahân i Gyngor Sir Ynys Môn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae'r uwchgynllun cydsyniedig ar gyfer parc busnes, y defnydd cyfredol o'r safle a'r defnydd arfaethedig o'r safle fel BCP yn unol â dyraniad polisi cynllunio Parc Cybi. Cyfeirir at y safle fel tir a ddiogelir ar gyfer mentrau cyflogaeth a busnes o dan Bolisi CYF 1: Diogelu, Dyrannu a Chadw Tir ac Unedau at Ddefnydd Cyflogaeth o Gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd. Cyfeirir at Barc Cybi yn benodol fel 'Safle Cynradd' ar Ynys Môn gyda chyfanswm arwynebedd o 109.2 hectar ar gyfer defnydd B1, B2 a B8.

Mae'r safle hefyd yn gorwedd o fewn AHNE ac felly mae'n rhaid iddo gydymffurfio â Pholisi PS 19 Gwarchod a Lle Bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol, lle mae'n rhaid i gynigion roi sylw priodol i ddynodiadau tirwedd statudol perthnasol. Mae'r asesiad o'r BCP arfaethedig ym Mharc Cybi wedi'i gynnal yn unol â lleoliad y safle yn y dynodiad hwn i sefydlu arwyddocâd unrhyw effeithiau. Ymdrinnir ymhellach ag effeithiau yn hyn o beth yn yr adran **Error! Reference source not found. Error! Reference source not found.**

Gan droi at effeithiau eraill, ni ragwelir y byddai'r defnydd arfaethedig o'r safle fel BCP yn cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd. Mae'r safle wedi'i leoli oddi ar ffordd asgwrn cefn Parc Cybi, gyda mynediad wedi'i gynllunio o'r ffordd fynediad ddiennw i'r safle yn y Parc Busnes. Ni chynigir unrhyw uwchraddiadau na gwelliannau ychwanegol o ran y prif fynediad i'r safle o Barc Cybi a'r rhwydwaith priffyrdd strategol ehangach. Fel rhan o ddatblygiad y safle, bydd y bonyn ffordd presennol hyd at ynys hollti'r gylchfan yn cael ei fabwysiadu gan Adran Briffyrdd CSYM a'i ddwyn i reolaeth gweithredwr y safle trwy broses 'gau' ar ffurf gorchymyn cynllunio a247.

Mae gan y safle arfaethedig fynediad da i'r rhwydwaith ffyrdd strategol i wasanaethu Porthladd Caergybi ac mae'n hawdd ei gyrraedd o'r porthladd trwy Gyffordd 2 Gwibffordd A55 Gogledd Cymru ar hyd yr A5153 ac i'r de ar Barc Cybi. Yna mae Gwibffordd A55 Gogledd Cymru yn cysylltu Caergybi â gweddill tir mawr Cymru o Ynys Môn.

Ni ddisgwylir i'r safle dderbyn traffig sylweddol. Rhagwelir, ar gyfartaledd, y bydd disgwyl oddeutu 25-30 HGV ar y safle trwy gydol pob cyfnod o 24 awr. Oherwydd y nifer isel o gerbydau yn ôl ac ymlaen i'r BCP, ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yrwyr a defnyddwyr eraill nad ydynt yn yrwyr yng Nghaergybi a'r cyffiniau. Darperir dadansoddiad manwl pellach o ran effeithiau traffig yn Adran 6 yr adroddiad hwn a Datganiad Trafnidiaeth (BCP21-005-00-00).

Gan droi at effeithiau amgylcheddol, oherwydd y defnydd presennol a thirlunio blaenorol o ran o'r safle i wasanaethu fel cyfleuster stacio HGV dros dro (llawr caled a phwll cydbwyso yn bennaf), ymchwiliwyd eisoes i fuddiannau ecolegol ac archeolegol heb fawr o effaith ehangach, os o gwbl, o ganlyniad i'r defnydd hwn. Rhagwelir y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol pellach sy'n codi o adeiladu a gweithredu'r safle yn gyfyngedig, er y cynigir darparu gwelliant i'r sefyllfa bresennol. Rhoddir mwy o fanylion mewn perthynas ag effaith a gwelliant amgylcheddol yn Adran 6 yr adroddiad hwn a'r Adroddiad Amgylcheddol (BCP21-002-00-00).

Bydd gweithredu ar y safle yn defnyddio ffyrdd mynediad pwrpasol a bydd yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth i'r gymuned leol. Felly, dylid ystyried nad yw egwyddor y cynllun yn gwrthdaro ag Uwchgynllun 2004 na'r dynodiad fel tir at ddefnydd cyflogaeth. Nid yw'r cynllun yn gwrthdaro â pholisïau'r CDLI PCYFF 1: Ffiniau Datblygu, na PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu, gan fod y cynllun yn cael ei ystyried yn unol â'r cynllun datblygu lleol a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn yr ystyr ei fod yn cefnogi datblygu cynaliadwy'r ardal.

5.2.2 Buddion Economaidd

Fel y nodwyd yn adran 1.4 o'r Adroddiad hwn, mae'n ofynnol i BCP wasanaethu Porthladd Caergybi i gynnal llif masnach SPS rhwng y DU ac Ewrop, gan ganiatáu i nwyddau groesi ffiniau gyda'r ffrithiant lleiaf. Mae rheoliadau a rheolau masnachu newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod gan borthladdoedd fel Caergybi y galluoedd i gynnal rhai gwiriadau ar nwyddau sy'n dod i mewn. Heb y cyfleusterau hyn, ni fyddai Porthladd Caergybi yn gallu derbyn nwyddau SPS sy'n dod o'r UE. Felly gellir ystyried bod adeiladu cyfleuster BCP i gefnogi'r porthladd yn hanfodol i hyfywedd parhaus gweithrediadau porthladdoedd a llif masnach ryngwladol. Mae Polisi 10 - Cysylltedd Rhyngwladol Cymru'r Dyfodol yn nodi Porthladd Caergybi fel porth strategol i hwyluso cysylltedd rhyngwladol, gan ymrwmo i reoli pyrth strategol fel Caergybi i sicrhau nad yw eu gweithrediad yn cael ei gyfyngu na'i gyfaddawdu. Felly, mae datblygu BCP yn cydymffurfio ag, ac yn cyflenwi, amcanion polisi cynllunio cenedlaethol.

Byddai cyfleoedd cyflogaeth sylweddol yn cael eu cynhyrchu, gan gynnwys swyddi medrus iawn fel staff APHA sy'n gyfrifol am weithredu'r gwiriadau ar anifeiliaid a chynhyrchion byw sy'n dod i mewn, diogelwch, rheoli traffig ac archwilio a phersonél rheoli safle, a thrwy hynny ddarparu effaith fuddiol i'r gymuned leol. Bydd oddeutu 60 o weithwyr fesul sifft gyda thair sifft dros bob cyfnod 24 awr. Bydd strategaeth gyflogaeth ar gyfer pob agwedd ar gyflogaeth ar y safle yn cael ei chwblhau, a bydd hyn yn ystyried yn llawn naill ai TOMs Cenedlaethol Cymru (y Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol) neu'r Offeryn Mesur Buddion Cymunedol fel rhan o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru 2015 (WPPS), a thrwy hynny sicrhau y bydd cyflogaeth leol yn cael ei defnyddio cyn belled ag sy'n bosibl er budd y gymuned leol.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru fel y llwybr caffael adeiladu a ffeirir. Mae hyn yn cydymffurfio â pholisïau caffael Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dangos buddion cymunedol trwy gadwyni cyflenwi lleol a chyflogaeth. Bydd y broses gaffael yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddangos eu bod yn darparu strategaeth a fydd yn sicrhau'r budd mwyaf i economi Cymru, gan gynnwys sut mae'r contractwr yn bwriadu darparu prentisiaethau a hyfforddiant, a gwariant lleol. Ar ôl eu penodi, bydd cyflenwyr yn cael eu monitro yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol fframwaith a rhaid iddynt gadw at y polisïau caffael, a disgwylir i'r contract adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau budd cymunedol y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Rheolwyr Prosiect.

Yn gyffredinol, bydd gweithrediad y safle yn darparu cyflogaeth amser llawn newydd i'r ardal mewn ystod o rolau, ac felly cefnogir egwyddor y cynllun gan bolisi CDLI PS 13, Darparu Cyfle ar gyfer Economi Ffynniannus.

5.2.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Dengys yr Adroddiad Ymgysylltu Ymgynghori (BCP21-006-06-00) bod gweithgareddau ymgysylltu ystyrion wedi'u cynnal yn unol ag Egwyddorion Gunning. Gellir dangos hyn trwy ymgysylltu'n gynnar â'r ystod lawn o randdeiliaid a mabwysiadu dull dylunio hyblyg. Mae cymryd rhan yn gynnar yn y broses ddylunio a chynllunio wedi caniatáu i'r cynllun ddarparu ar gyfer newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd. At hynny, cynigir parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gydol y cyfnod adeiladu.

Bu'r broses yn effeithiol o ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion, mynd i'r afael â materion technegol a chynllunio a godwyd gan randdeiliaid a chyfathrebu'r buddion economaidd ehangaf posibl.

Roedd y prif bwyntiau ymgysylltu yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ymgynghoriad cymunedol gan gynnwys cyhoeddi gwefan, yn Saesneg ac yn Gymraeg, yn esbonio'r cynllun a manylu ar sut i gymryd rhan.

- Cyfnod ymgynghori cyhoeddus gyda'r nod o dderbyn barn i lywio cynigion ar y pwynt cynharaf bosibl yn natblygiad y cynllun
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol yn gynnar gyda'r nod o sicrhau bod rhanddeiliaid technegol yn cael eu hysbysu o'r cynllun cyn cychwyn y ffenestr ymgysylltu ffurfiol, gan ganiatáu digon o amser i ddeall y cefndir.

Rhoddodd ymgysylltiad ymgynghori ffurfiol â rhanddeiliaid technegol adborth beirniadol ar gynigion dylunio cynnar, a sicrhodd y gallai lliniaru effeithiau sylweddol gael ei ymgorffori yn yr amlen gydsynio a'r cyfyngiadau SDO arfaethedig. Mae'r broses ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y cynigion bob amser wedi cael eu llywio gan Egwyddorion Gunning sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Adroddiad Ymgysylltu Ymgynghori (BCP21-006-06-00) yn manylu ar yr holl ymgysylltu a wnaed ac mae'n tynnu sylw at sut mae adborth gan rhanddeiliaid wedi'i ymgorffori yn y cynnig hwn.

5.3 Casgliad

Mae pwrpas y datblygiad arfaethedig hwn yn hanfodol i gynnal llif masnach SPS unwaith y bydd cyfnod pontio Gadael yr UE wedi dod i ben, a chaniatáu i nwyddau SPS groesi ffiniau gyda'r ffrithiant lleiaf. Bydd y BCP yn darparu cyfleuster o'r fath ac yn caniatáu ar gyfer prosesau ffiniau hanfodol a rheoli traffig.

Dewiswyd Plot 9 Parc Cybi oherwydd ei leoliad a rhwyddineb mynediad i ac o Borthladd Caergybi a rhwyddineb mynediad i Wibfordd A55 Gogledd Cymru. Defnyddiwyd dull dilyniannol yn y broses didoli safle, lle dewiswyd Plot 9 fel yr opsiwn a ffeirir yng Nghaergybi i wasanaethu'r porthladd.

Aseswyd effeithiau yn unol â lleoliad y safle mewn AHNE. O ystyried graddfa'r AHNE sy'n ymwneud ag ardal arfordirol Ynys Môn, hyd at oddeutu 2km yn fewndirol o'r môr mewn rhai lleoliadau, nid ystyrir bod y BCP yn peryglu'r dynodiad hwn. Mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi asesu datblygiad BCP yn hyn o beth ac wedi dod i'r casgliad bod y datblygiad yn dderbyniol, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau SDO a nodwyd.

Diffinnir y safle hefyd fel tir a ddiogelir ar gyfer mentrau cyflogaeth a busnes yn y cynllun datblygu mabwysiedig ac nid yw'r safle'n gwrthdaro ag unrhyw ddefnydd blaenorol na chaniatâd cynllunio sy'n bodoli. Ni fydd defnydd parhaol o'r safle fel BCP yn rhwystro unrhyw ddatblygiad ar y safle yn y dyfodol, os nad oes angen pellach am y cyfleuster BCP.

Ar hyn o bryd, mae'r safle wedi'i dirlunio'n rhannol a'i ddatblygu ar gyfer cyfleuster stacio HGV dros dro yr ystyrir ei fod yn gymharol ag egwyddor y defnydd arfaethedig o'r safle i hwyluso symudiadau HGV.

Felly, ystyrir bod y safle yn cadw at egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn yr ystyr ei fod yn darparu twf cynaliadwy, ac yn cael ei gefnogi gan bolisi cynllunio lleol a chenedlaethol.

6 Ystyriaethau Perthnasol

Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau ategol a ddarperir fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth hon, gan dynnu sylw at ble mae canlyniadau asesu wedi dylanwadu ar y cyfyngiadau SDO arfaethedig, a sut mae'r Amlen Gydsynio arfaethedig yn cadw at bolisiâu perthnasol.

6.1 Priffyrdd a Mynediad

Cynhyrchwyd Datganiad Trafnidiaeth (BCP21-005-00-00) i gefnogi'r BCP a'r defnydd arfaethedig o SDO, rhoddir crynodeb o'i ganfyddiadau isod.

Trwy ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer Porthladd Caergybi, mae BCP Parc Cybi yn hanfodol i hwyluso llif mewnforion SPS. Byddai nifer yr HGVs y gellir eu lleoli yn y BCP ar unrhyw un adeg hyd at 40. Ar gyfartaledd, byddai disgwyl tua 25-30 HGV ar y safle yn ystod unrhyw gyfnod o 24 awr.

O ran mynediad, mae'r safle wedi'i leoli'n agos at y rhwydwaith ffyrdd strategol a Phorthladd Caergybi ei hun ac mae'n hygyrch yn uniongyrchol trwy'r A5153 o Gyffordd 2 Gwibffordd A55 Gogledd Cymru. Pe bai'r A55 yn cau, byddai'r safle'n cael ei gyrchu trwy'r A5 a byddai'r traffig i'r safle ac oddi yno yn defnyddio'r pwynt mynediad presennol.

Mae Plot 9 a Parc Cybi yn ei gyfanwydd eisoes yn llwybr HGV sefydledig ar gyfer cerbydau sy'n cyrchu'r cyfleuster stacio HGV dros dro a safle Roadking Truckstop, felly mae'r seilwaith eisoes yn bodoli i gefnogi'r datblygiad arfaethedig, ac mae'r cynnig yn unol â pholisi ISA 1 Darpariaeth Seilwaith y CDLI.

Er mwyn sicrhau bod Parc Cybi yn cael ei ddefnyddio fel yr unig lwybr HGV i ac o Wibffordd A55 Gogledd Cymru, bydd arwyddion ffordd amlwg yn cyfeirio gyrwyr HGV i'r BCP o Borthladd Caergybi. Bydd arwyddion y tu allan i fynedfa'r safle hefyd i gynghori cludwyr ynghylch defnyddio'r cyfleusterau safle. Cynigir gorfodi trwy'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00).

Bydd un pwynt mynediad ac allanfa i'r safle pan fydd ar waith, ar hyd ffordd asgwrn cefn Parc Cybi, fel y cynigir yng nghyfyngiad O.6 Rheoli Traffig. Bydd HGVs yn cael eu gwahanu gan ddyluniad y safle, lle byddai HGVs sy'n dod i mewn yn cael eu cyfeirio at lonydd dal pwrpasol a byddai HGVs sy'n gadael y safle yn cael eu cyfeirio allan trwy bwynt gadael y safle. Bydd staff yn cyrraedd ac yn gadael y safle trwy'r llwybr presennol ond byddent yn cael eu cyfeirio at faes parcio staff pwrpasol.

Gweithredir mesurau i annog gyrwyr i beidio â gadael y safle a defnyddio'r briffordd i'r de tuag at Barc Gwledig Bae Trearddur. Bydd strategaeth arwyddion a rheoli traffig yn cael ei datblygu cyn i'r cynllun weithredu.

Yn unol â Polisi TRA 1 y CDLI, darparwyd asesiad o effeithiau traffig o ganlyniad i'r datblygiad yn y Datganiad Trafnidiaeth, sy'n dangos na fydd effaith ddifrifol ar y rhwydwaith priffyrdd o ran tagfeydd na diogelwch.

Bydd Cynllun Teithio Staff (BCP21-005-01-00), a atodir i'r Datganiad Trafnidiaeth (BCP21-005-00-00), yn cael ei weithredu ar ddechrau'r gwaith ar y safle, a fydd yn anelu at hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy i gydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac amcanion polisi ehangach y CDLI (TRA 4, PS4). Darperir lle parcio beiciau ar y safle ac o'r herwydd ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â'r amcanion polisi cynaliadwy ehangach a amlinellir uchod; a atgyfnerthir gan fanyleb ddylunio'r safle sy'n cadw at safonau adeiladu 'rhagorol' BREEAM.

I gloi, mae effeithiau trafndiaeth a phriffyrdd i'w rheoli trwy greu Cynllun Teithio Staff, strategaeth arwyddion a chadw at gyfyngiadau'r SDO, ac felly nid ydynt yn cyflwyno unrhyw effeithiau sylweddol.

6.2 Ansawdd Aer

Mae effeithiau'r cynllun o ran ansawdd aer wedi'u hasesu ac fe'u disgrifir yn unol â'r fethodoleg a amlinellwyd yn Atodiad Ansawdd Aer (BCP21-002-02-00).

Mae'r asesiad yn nodi bod llygryddion aer (nitrogen deuocsid a deunydd gronynnol) ymhell islaw'r safonau ansawdd aer cymwys.

Aseswyd effeithiau ansawdd aer o adeiladu yn ansoddol gan ystyried graddfa'r gweithgareddau adeiladu a'r mesurau lliniaru arfer da a fyddai'n cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae gan weithrediad y BCP y potensial i gynyddu llif traffig ar y slipffyrdd i mewn ac oddi ar yr A55, yr A5153 a Pharc Cybi. Yn ogystal, byddai teithiau staff hefyd yn gysylltiedig â gweithrediad y safle.

Mae asesiad ansawdd aer o gyfnod adeiladu'r cynllun wedi ystyried effeithiau traffig, peiriannau a llwch. Daethpwyd i'r casgliad oherwydd amserlen y cyfnod adeiladu (8 mis), y nifer isel o HGVs a'r defnydd o fesurau arfer gorau, na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd yr aer yn ystod y cam hwn.

Yn ystod gweithredu, aseswyd y 'senario waethaf', gan dybio y canlynol;

- Mae maint arfaethedig y safle (hyd at 40 lle HGV) ac o ystyried yr amcangyfrifir y disgwylir ar gyfartaledd 82¹ o symudiadau dwy-ffordd² bob dydd; a,
- Hyd at 62 o weithwyr³ fesul sifft gyda thair sifft dros gyfnod o 24 awr ar y safle, yna disgwylir creu uchafswm o oddeutu 412 o symudiadau dwy-ffordd bob dydd.

Canfu'r asesiad na fyddai newidiadau mewn llif traffig a achosir gan y cynllun yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd aer. Nodwyd hefyd y byddai gan y safle bolisi 'dim segura' llym i leihau allyriadau o HGVs tra'u bod yno, mesur y cynigir ei reoli trwy derfyn O.8 Gweithredu safle - 'dim segura', a gynigir yn y Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00).

6.3 Treftadaeth Ddiwylliannol

Aseswyd a chyflwynwyd effeithiau treftadaeth ddiwylliannol y cynllun yn yr Asesiad Effaith Treftadaeth (BCP21-002-03-00). Sefydlwyd llinell sylfaen yr asesiad a'r prosesau gwerthuso dilynol trwy ymgysylltu â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd (GAPS) a Cadw, ymweliad safle gan arbenigwyr treftadaeth Mott MacDonald, a thrwy adolygiad bwrdd gwaith. Defnyddiwyd ardal astudio o 1.5km ar gyfer asedau treftadaeth dynodedig, a 500m ar gyfer asedau treftadaeth nad oeddent wedi eu dynodi.

Ceir chwech o asedau treftadaeth dynodedig o fewn ardal yr astudiaeth, gan gynnwys:

- Tair heneb gofrestredig, sy'n cynnwys Siambr Gladdu Trefignath (Cadw: AN011), tua 40m i'r gogledd ddwyrain, maen hir Tŷ Mawr (Cadw: AN012), tua 490m i'r gogledd orllewin a Grŵp Cytiau Trearddur, ryw 610m i'r de ddwyrain o'r safle.
- Tri adeilad rhestredig, dau adeilad gradd II ac un adeilad II*, gan gynnwys Melin Wynt Kingsland sy'n adeilad rhestredig gradd II* (Cadw: 5762) wedi'i leoli tua 1.5 cilometr i'r gorllewin o'r safle.

¹ 82 o symudiadau dwy-ffordd sy'n cynnwys HGVs yn bennaf ond hefyd yn geidwadol yn cynnwys LDVs sy'n debygol o fod yn faniau/ceir gydag ôl-gerbydau ceffylau

² 41 o symudiadau unfordd yn hafal i 82 o symudiadau dwy-ffordd

³ Defnyddiwyd 62 o weithwyr fesul sifft ar gyfer asesu ansawdd aer, er mwyn caniatáu ar gyfer y senario achos gwaethaf.

Cyn yr asesiad hwn, roedd archeoleg yn yr Ardal Ddatblygadwy wedi'i chlirio trwy gyfres o ymchwiliadau, fel y nodir yn Adran 3.3 o Atodiad C yr Adroddiad Amgylcheddol. Nid oes unrhyw botensial archeolegol yn yr Ardal Ddatblygadwy.

Mae gan bresenoldeb peiriannau adeiladu a llygredd sŵn a golau cysylltiedig y potensial i effeithio ar asedau treftadaeth o ganlyniad i newid yn eu lleoliadau. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cael effaith sylweddol, yn bennaf oherwydd y datblygiad presennol yn y lleoliad a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn ystod y gwaith adeiladu i leihau effeithiau. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gornel ogledd-ddwyreiniol (a reolir trwy Derfynau SDO B.2 a B.3) sydd fwyaf gweladwy o'r siambr gladdu.

Mae gan weithrediad y cynllun y potensial i effeithio ar asedau treftadaeth o ganlyniad i newid yn eu lleoliadau. Felly cynigiwyd nifer o derfynau SDO i liniaru'r effeithiau hyn, gan gynnwys;

- B1 – Uchafswm uchder yr adeiladau i leihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath
- B2 - Osgoi y brigiad creigiog, er mwyn lleihau effaith newidiadau i leoliadau'r asedau treftadaeth
- B3 - Ardal Ddatblygadwy, i leihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath
- B4 - Triniaeth Ffensio/Ffiniau i sicrhau nad yw dyluniad ffensio yn negyddu mesurau lliniaru eraill a gynigir i leihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath
- B.6 Llundio mynediad/allanfa, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw bwyntiau mynediad heblaw'r fynedfa sefydledig yn effeithio ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath
- O.9 Mynediad Brys, er mwyn lleihau cyflwyno ardaloedd llawr caled newydd i ardaloedd yr asedau treftadaeth.

Byddai gweithredu'r cynllun yn arwain at effaith andwyol ar Siambr Gladdu Trefignath o ganlyniad i newid yn ei leoliad, ond ni fyddai'n cael effaith sylweddol. Ystyriwyd y byddai effaith andwyol gweithredu'r cynllun i'w weld ar Feini Hirion Tŷ Mawr hefyd o ganlyniad i newid yn eu lleoliad. Byddai gweithredu'r cynllun yn arwain at effaith andwyol ar Feddrod Siambr Trearddur trwy newidiadau i'w leoliad. Mae hyn yn bennaf oherwydd ymyrraeth yn yr olygfa tuag at Fynydd Twr a chyflwyno seilwaith i leoliad lled-wledig.

Ni ragwelir effaith sylweddol ar gyfer naill ai Siambr Gladdu Trefignath, Maen Hir Tŷ Mawr na Beddrod Siambr Trearddur oherwydd y lliniaru dyluniad a gynigir o fewn y cyfyngiadau SDO a nodwyd uchod. Nid yw'r safle'n rhwystro golygfa allweddol ac mae'n cael ei sgrinio'n rhannol o'r safle gan wrych a'r brigiad creigiog wrth gefn, gan gyfrannu at y diffyg effaith sylweddol. Felly, dylid ystyried bod yr holl fesurau rhesymol wedi'u hymgorffori i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r CDLI PCYFF 3: Dylunio a Llundio Lleoedd a PS 20: Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth lle bo hynny'n briodol.

6.4 Tirwedd a Gweledol

Cynhaliwyd gwerthusiad Tirwedd a Gweledol (BCP21-002-04-00). Bydd yr adran hon yn crynhoi canlyniadau'r asesiad, gan dynnu sylw at ble mae lliniaru wedi'i ymgorffori yn y dyluniad, ac a gynigiwyd yn y Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00)

Sefydlwyd ardal astudio o radiws 5km o ganol y safle fel pellter addas ar gyfer asesu effeithiau tirwedd a gweledol a allai fod yn sylweddol. Sefydlwyd byffer 1km hefyd i nodi unrhyw effeithiau mwy lleol neu arwyddocaol.

Mae'r cynllun yn gyfan gwbl o fewn AHNE Ynys Môn. Y tu hwnt i ardal yr astudiaeth 1km, ac o fewn y parth byffer 5km, mae ardaloedd o arfordir treftadaeth, coetir hynafol, ardaloedd mynediad agored a man agored gwarchoddedig, ond mae'r rhain o'r fath bellter fel nad ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol gan y cynllun. Mae'r safle hefyd o fewn Ardal

Cymeriad Tirwedd Genedlaethol (NLCA) 1 Arfordir Ynys Môn ac Ardal Cymeriad Tirwedd 25⁴ (LCA) sy'n cynnwys y rhan fwyaf o Ynys Cybi.

Mae nifer o derfynau SDO arfaethedig wedi'u drafftio i liniaru effeithiau'r datblygiad, a chymerwyd y rhain i ystyriaeth wrth asesu p'un a fyddai unrhyw effeithiau sylweddol niweidiol ar effeithiau tirwedd a gweledol; mae'r rhain yn cynnwys:

- B1 – Uchafswm uchder yr adeiladau i leihau'r effaith weledol
- B2 - Osgoi y brigiad creigiog, er mwyn sgrinio'r safle
- B3 - Ardal Ddatblygadwy, i leihau'r effaith weledol o fwy o ardaloedd llawr caled yn yr AHNE a sgrinio'r datblygiad
- B4 - Triniaeth Ffensio/Ffiniau i sicrhau bod y dyluniad ffensio yn cyd-fynd â'r ardal leol
- B5 Gorffeniadau Ffurflen Adeiledig, i helpu i leihau unrhyw effeithiau gweledol niweidiol y datblygiad arfaethedig ar yr AHNE a chymeriad tirwedd yr ardal
- B.7 – Goleuadau, i leihau effaith gollyngiad golau yn yr ardal gyfagos
- B8 – Tirlunio, i helpu i sgrinio'r datblygiad o eiddo cyfagos
- O.7 Cynnal a chadw'r safle yn y tymor hir, er mwyn sicrhau bod tirlunio a sgrinio yn cael ei gynnal
- O.9 Mynediad Brys, er mwyn lleihau cyflwyno ardaloedd llawr caled newydd yn yr AHNE

Yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai effeithiau ar Gymeriad Tirwedd yn codi oherwydd presenoldeb peirianwaith adeiladu, deunyddiau, peiriannau a darpariaeth goleuadau adeiladu yn lleoliad presennol yr ardal gyfagos.

O ystyried y defnydd presennol o'r safle, a natur gymharol fyrdymor y gwaith adeiladu (hyd at wyth mis), ni ystyrir bod effeithiau sylweddol ar gymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol. Serch hynny, byddai mesurau i leihau ymyrraeth weledol ac effeithiau ar amwynder gweledol a chymeriad y dirwedd yn cael eu hymgorffori mewn CEMP, y byddai'r Prif Contractwr yn cadw ato ac yn ei weithredu.

Byddai'r cynllun yn cyflwyno sawl adeilad o uchderau amrywiol, ardaloedd caled ar gyfer HGVs a pharcio ceir, gofod troi i gerbydau, ffin safle ddiogel newydd, ac yn cael ei oleuo yn y nos at ddibenion gweithredol. Byddai hyn yn arwain at newid yn yr olygfa a gaiff eiddo preswyl sy'n edrych dros y safle, yn enwedig Penrhyn Geiriol a'r eiddo ar ochr ddwyreiniol Hunters Chase.

Er y byddai'r seilwaith newydd hwn yn arwain at newid yng ngolygfa rhai derbynyddion gweledol, dylid ystyried hyn yng nghyd-destun ystad ddiwydiannol ehangach Parc Cybi a ddatblygwyd gyntaf yn 2008 a hen waith Alwminiwm Ynys Môn ymhellach i'r dwyrain, a datblygiad mwy diweddar a rhannol Plot 9 yn 2021.

Ni fyddai'r safle i'w weld yn hawdd o ardaloedd yn yr AHNE ehangach nac o ardaloedd preswyl cyfagos eraill yn Kingsland i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. Nid yw'r safle a'r ardal gyfagos yn cynnwys unrhyw un o'r nodweddion pwysig ac arbennig y mae statws yr AHNE yn ceisio eu gwarchod a'u gwella, ac eithrio'r ddwy heneb gofrestredig nad yw'r cynllun yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Ni ystyrir bod y cynllun yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar yr AHNE ehangach, sy'n cynnwys ardal arfordirol helaeth Ynys Môn. Mae'r datblygiad wedi'i leoli yn fewndirol ac mae o fewn cyd-destun y tir diwydiannol a chyflogaeth presennol. Ystyrir felly ei bod yn annhebygol o fod o niwed pellach i'r AHNE a ddynodwyd yn bennaf i amddiffyn parth arfordirol Ynys Môn. Felly dylid ystyried bod y cynnig yn cyd-fynd â Pholisi AMG1: Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae mesurau dylunio a liniaru wedi'u hymgorffori yn nyluniad y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys lleiafswm byffer tirlun o 10m o rywogaethau coed cymysg brodorol (a fyddai'n cael ei reoli a'i

⁴ Strategaeth Tirwedd Ynys Môn - Diweddariad 2011

gynnal am oes y BCP i sicrhau ei lwyddiant), cadw a gwella'r bwnd presennol gyda choed, cyfyngu ar uchder adeiladau ar draws y gorffeniadau ffurf safleoedd, ffensys ac adeiladau wedi'u halinio â chanlyniadau'r Asesiad Lliw Amgylcheddol a'r dyluniad goleuo wedi'u optimeiddio i sicrhau'r gollyngiad golau lleiaf posibl trwy unedau cyfeiriadol â chyflau, a chyfyngiadau ar lefelau goleuni y tu allan i'r Ardal Ddatblygadwy. Felly, cymerwyd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad sy'n codi o'r SDO yn unol â Pholisiau'r CDLI: AMG 3: Amddiffyn a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sy'n Nodedig i'r Cymeriad Tirwedd Lleol, PCYFF 3: Dylunio a Llunio Lleoedd a Pholisi PCYFF 4: Dylunio a Thirlunio.

6.5 Daeareg a Phriddoedd

Byddai effaith y cynllun arfaethedig yn ddibwys, ni fyddai unrhyw adnoddau daearegol yn cael eu heffeithio, a byddai pridd yn cael ei aildefnyddio. Fodd bynnag, byddai angen torri a llenwi cryn dipyn wrth adeiladu'r cynllun ac, ar adeg ysgrifennu, roedd y lefelau arfaethedig yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn lleihau'r cyfeintiau llenwi net sy'n ofynnol. Byddai'r adnoddau pridd presennol yn cael eu tynnu o'r safle a'u haildefnyddio ar y safle, yn unol â Chanllawiau Defra. Byddai lefel y safle'n cynnwys agregau wedi'u mewnfurio o brif ffynhonnell craig heb ei defnyddio o'r blaen (chwarel) neu gyflenwr rheoledig sy'n defnyddio agregau eilaidd.

Ni ystyrir bod arwyddocâd cyffredinol adeiladu'r cynllun arfaethedig ar ddaeareg a phriddoedd yn sylweddol.

Byddai mesurau atal llygredd priodol yn cael eu gweithredu fel rhan o'r cynllun i gyfyngu ar effeithiau ar ddaeareg a phriddoedd ac i atal halogion rhag mudo i ardaloedd cyfagos. Mae Cyfyngiad SDO O.5: Rheoli Gwastraff yn nodi'r mesurau atal hyn, megis defnyddio atalwyr. Ni ragwelir y byddai effaith sylweddol ar ddaeareg a phriddoedd oherwydd gweithrediad y cynllun.

6.6 Bioamrywiaeth

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb; mae'r wybodaeth waelodlin lawn ac arfarniad o effeithiau ar gael yn Adroddiad yr Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol (PEAR) (BCP21-002-05-00). Cynhaliwyd astudiaeth ddesg i bennu presenoldeb safleoedd cadwraeth natur dynodedig a rhywogaethau gwarchoddedig neu nodedig o fewn y parth dylanwad. Cynhaliwyd arolwg cerdded Cam 1 o'r safle ar 3 Mawrth 2021 gan ecolegwyr profiadol. Dynodwyd a mapiwyd yr holl gynefinoedd ar y safle, ac archwiliwyd yr holl goed o fewn ffin y safle am nodweddion clwydo posibl (PRF).

Cynhaliwyd arolygon madfallon dŵr cribog (GCN) (gan gynnwys eDNA i gyrff dŵr o fewn 300m ac arolygon presenoldeb/absenoldeb mewn cyrff dŵr o fewn 250m) yn ystod Ebrill a Mai 2021, ac fe'u cynhwysir yn y pecyn hwn (BCP21-001-00-00). Dychwelodd yr eDNA ac arolygon presenoldeb/absenoldeb nad oedd GCN yn debygol o fod yn bresennol ar y safle ac ystyrir bod statws cadwraeth cyfredol GCN yn yr ardal a arolygwyd yn anffafriol.

Datblygwyd llawer o'r safle eisoes o dan hawliau datblygu a ganiateir gan Lywodraeth Cymru a ganiataodd datblygu'r cyfleuster stacio, felly dim ond y cynefin lleiaf posibl sy'n parhau ar y safle. Mae'r cynefin ymylol sy'n weddill yn cynnwys glaswelltir wedi ei led-wella a borir, a phorfa frwyn gyda phrysgwydd, coetir planhigfa llydanddail, glannau pridd, a Chynefinoedd Blaenoriaeth - brigiadau creigiog a glaswelltir asid heb ei wella. Mae'r rhain yn darparu cynefin addas i nifer o rywogaethau gwarchoddedig a/neu nodedig, gan gynnwys ystumod, adar, moch daear, dyfrgwn, draenog, amffibiaid, ymlusgiaid ac infertebratau.

Ystyriwyd effeithiau sylweddol tebygol ar y safleoedd dynodedig fel rhan o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) (BCP21-007-00-00).

Cynigiwyd nifer o derfynau fel rhan o'r Cyfyngiadau SDO, a gafodd eu hystyried wrth asesu effeithiau sylweddol; mae cyfyngiadau o'r fath yn cynnwys;

- B.2 Osgoi y brigiad creigiog, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddatblygiad yn yr ardal hon sy'n cynnwys rhywogaethau botanegol prin a ystyrir o werth ecolegol uchel
- B.3 Ardal Ddatblygadwy, er mwyn sicrhau bod y cynefin presennol yn cael ei gadw lle bo hynny'n bosibl a chyfyngu ar arwynebedd llawr caled
- B.7 Goleuadau, i leihau effaith goleuni ar ecoleg
- B.8 Tirlunio, i ddarparu buddion bioamrywiaeth cynefin ymyl coetir
- B.9 Bioamrywiaeth, er mwyn sicrhau bod datganiadau dull addas ar waith trwy gydol y gwaith adeiladu

Gallai gweithgareddau adeiladu achosi aflonyddwch i rywogaethau gwarchoddedig a/neu nodedig pe buasent yn bresennol mewn cynefinoedd a gedwir. Fodd bynnag, byddai mesurau arfer gorau a gwiriadau cyn-gwaith yn cael eu cynnal cyn cael gwared ag unrhyw llystyfiant. Byddai goleuadau adeiladu hefyd yn cael eu bafflo, yn gyfeiriadol a'u cynllunio i leihau gollyngiadau golau i unrhyw gynefinoedd a gedwir. Bydd hyn yn cael ei reoli trwy'r cyfyngiadau SDO a gynigir, a bydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ar gyfer y cynnig. Tybiwyd bod ymlusgiaid yn bresennol, a dim ond ar ôl gwiriad cyn-gwaith lleol a mesurau gwaith sensitif i osgoi'r risg bosibl i ymlusgiaid y byddid yn mynd ati i glirio llystyfiant sydd â'r potensial i gynnal ymlusgiaid, fel y cytunwyd gyda Swyddog Ecoleg CSYM. Ni ystyrir bod effaith y cynllun ar fioamrywiaeth yn ystod y gwaith adeiladu yn sylweddol.

Er bod llawer o'r safle yn yr Ardal Ddatblygadwy eisoes wedi'i glirio o gynefin ecolegol, byddai rhywfaint o golled o gloddiau pridd llystyfol yng nghornel ogledd-orllewinol y safle. Byddai gwelliannau'n cael eu gweithredu fel plannu coed ychwanegol, ardal byffer tirwedd, prysgwydd, SDCau yn canolbwyntio ar fywyd gwyllt, a phlannu blodau gwyllt. Mae'r terfyn SDO B.8 arfaethedig yn ceisio sicrhau darparu lleiafswm o 10m o byffer tirwedd i leihau'r effeithiau ar unrhyw goetir a dorrwyd, ac mae dyluniad goleuadau sensitif yn lleihau effeithiau goleuadau artiffisial ar goridorau chwilota/cymudo mamaliaid. Ystyrir bod y gwelliannau hyn yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19: Gwarchod a Lle Bo'n Berthnasol Gwella'r Amgylchedd Naturiol a Pholisïau CDLI AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol ac AGM 6: Amddiffyn Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol.

6.7 Asedau Materol a Gwastraff

Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer y ddisgyblaeth hon wedi'i chanolbwyntio ar yr ardal o fewn yr ôl-troed adeiladu (neu ffin y cynllun), yn ogystal ag ardal gogledd Cymru y byddai angen iddi dderbyn sgil-gynhyrchion neu wastraff a gynhyrchir gan y cynllun, a ffynonellau dichonadwy ac argaeledd deunyddiau adeiladu sydd eu hangen yn nodweddiadol ar gyfer gwaith adeiladu o'r math hwn. Byddai angen adnoddau materol ar gyfer adeiladu'r cynllun, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adeiladau modiwlaid, colofnau goleuadau, ffensys diogelwch ac ail-wynebu gweddill y safle (ac eithrio ardaloedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer plannu tirwedd a systemau draenio cynaliadwy).

Nid yw'r cynllun wedi'i leoli o fewn na gerllaw unrhyw ardaloedd Diogelu Mwynau.

Ystyrir bod unrhyw effeithiau andwyol posibl ar asedau materol a gwastraff oherwydd disbyddu adnoddau naturiol yn cael eu lliniaru gan y ffaith mai dim ond ychydig bach o adnoddau materol fydd eu hangen a byddai mesurau'n cael eu gweithredu i ddelio ag unrhyw wastraff a gynhyrchir.

Rhagwelir mai dim ond lleiafswm o asedau materol fyddai eu hangen yn ystod gweithrediad y cynllun. Mae potensial ar gyfer effeithiau andwyol yn sgil cynhyrchu gwastraff o gyflwyno eitemau anifeiliaid a bwyd/planhigion yn ystod gweithrediad y safle. Cynigiwyd lliniaru gwastraff yn briodol fel rhan o derfyn O.5 SDO, sy'n nodi'r gofynion angenrheidiol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol. Bydd y cyfyngiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn unrhyw CEMP a Chynllun Rheoli

Gweithredol. Felly, gellir ystyried y bydd gwastraff yn cael ei reoli'n briodol ar y safle ac na fydd yn effeithio ar yr ardal gyfagos.

6.8 Sŵn a Dirgryniad

Mae'r effeithiau sŵn yn deillio o ganlyniad i'r cynllun wedi'u hasesu a'u disgrifio yn unol â'r fethodoleg a amlinellwyd yn yr Asesiad o Effaith Sŵn (BCP21-002-06-00).

Ni chynhaliwyd arolwg gwaelodlin fel rhan o'r asesiad hwn gan nad ystyrir y byddai unrhyw lefelau a fesurir yn ystod yr asesiad hwn yn gynrychioliadol oherwydd yr amodau COVID-19 presennol. O ganlyniad, cytunwyd y gellid cymryd lefelau gwaelodlin ar gyfer mesuriadau sŵn amgylchynol a chefnidir o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd yn ddiweddar fel rhan o'r astudiaeth ddesg, fel y cytunwyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r derbynyddion sy'n sensitif o ran acwstig o fewn 600m i'r safle i gyd wedi'u hadnabod fel clystyrau anheddau. Mae'r tri lleoliad derbynyddion agosaf i'r safle wedi'u nodi fel y rhai mwyaf agored i unrhyw effeithiau niweidiol posibl, ac effeithiau niweidiol sylweddol, oherwydd sŵn a dirgryniad o'r cynllun.

Mae'r amgylchedd sylfaenol yn cael ei ddominyddu gan draffig sy'n pasio ar yr A55, A5153 a'r B4545 yn ogystal â symudiadau lorïau i mewn ac allan o'r Road King Truckstop gerllaw.

Cynigir nifer o fesurau lliniaru i leihau'r effaith sŵn a dirgryniad yn ystod y cyfnod adeiladu ac fe'u nodir yn y Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00) sy'n cynnwys gosod oriau adeiladu, ac angen am gais Adran 61 o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 i leihau'r tebygolrwydd y bydd effeithiau andwyol sylweddol yn codi yn ystod y gwaith adeiladu.

Daethpwyd i'r casgliad bod effeithiau sŵn traffig ffordd yn debygol o fod yn ddibwys neu'n fach ac felly nad yw'n debygol o achosi effeithiau andwyol sylweddol oherwydd graddfa fach y datblygiad a chapasiti isel y safle ar gyfer ceir staff a HGVs.

Mae'n annhebygol y bydd effeithiau oherwydd sŵn anifeiliaid, yn enwedig cŵn yn cyfarth, yn cynhyrchu unrhyw effeithiau andwyol sylweddol oherwydd anamllder anifeiliaid ar y safle, presenoldeb staff parhaol ar y safle, ac archwiliadau'n cael eu cynnal y tu mewn i adeilad cyfleuster.

Aseswyd arwyddocâd unrhyw effeithiau sŵn sy'n codi oherwydd gweithgareddau safle gan gynnwys symudiadau cerbydau, sŵn gwefru gan gerbydau oergell, a ffynonellau peirianwaith sefydlog. Disgwylir i effeithiau dirgryniad fod yn ddibwys oherwydd y pellter rhwng ffin y safle a'r derbynyddion preswyl agosaf. Adeiladwyd model sŵn ar gyfer y safle. Defnyddiwyd cyfres o ragdybiaethau achos gwaethaf gan gynnwys nifer yr HGVs sy'n defnyddio'r safle, nifer yr eitemau o beirianwaith sefydlog, nifer yr unedau cerbydau oergell sy'n rhedeg ar yr un pryd, a nifer y symudiadau ceir staff a ddefnyddir i lywio'r asesiad (Gweler rhestr lawn o dybiaethau yn yr Asesiad Effaith Sŵn (BCP21-002-06-00)). Canfu canfyddiadau cyffredinol y model a'r asesiad dilynol, er bod amcangyfrif cychwynnol o effeithiau andwyol sylweddol posibl mewn rhai derbynyddion, mewn cyd-destun, mae'r lefel sŵn benodol (sŵn y cynllun) yn is na'r lefel sŵn amgylchynol bresennol ac felly mae'r sŵn a ragwelir oherwydd y cynllun yn fach iawn.

Gwnaed asesiad o'r cynllun gyda nifer o fesurau lliniaru ar waith, a ysgrifennwyd i mewn i'r terfynau SDO arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys darparu rhwystr sŵn ar hyd y ffordd fynediad i sgrinio'r lonydd nofio o dderbynyddion preswyl (O.4) a rheolaethau rheoli safle fel polisi dim segura am fwy na 5 munud (O.8). Felly, ystyrir na fydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar sŵn a dirgryniad o ganlyniad i adeiladu neu weithredu'r cynllun, ac felly mae hefyd yn unol â Pholisi CDLI PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu, yn yr ystyr na fydd unrhyw effaith andwyol ar amwynder preswyl.

6.9 Poblogaeth ac Iechyd Pobl

Mae'r asesiad o boblogaeth ac iechyd pobl a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Amgylcheddol (BCP21-002-00-00) yn ystyried yr effeithiau posibl ar eiddo a thai preifat, tir ac asedau cymunedol, tir datblygu a busnesau, daliadau tir amaethyddol, cerddwyr, beicwyr a marchogwyr (WCH), ac iechyd pobl. Cyfyngwyd graddfa'r ardal astudiaeth i 500m o ffin y safle i nodi effeithiau'r cynllun ar y gymuned.

Ni fyddai angen cau ffyrdd na hawliau tramwy cyhoeddus yn ystod y gwaith adeiladu, ac ni fyddai angen rheoli traffig. Er bod sawl busnes ac eiddo yng nghyffiniau'r cynllun, byddai'r cynllun yn hunangynhwysol gyda darpariaeth mynediad ei hun, felly ni fyddai angen cyfyngu mynediad i fusnesau nac eiddo preifat. Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar y rhwydwaith WCH na busnesau cyfagos yn ystod y cyfnod gweithredu.

Mae dyluniad y cynllun yn sicrhau y gostyngir y lefelau sŵn i rai nad ydynt yn sylweddol trwy osod ffens amsugol acwstig 5m o uchder. Gyda hyn ar waith, ni ragwelir unrhyw effeithiau ar iechyd pobl, a chydymffurfir ymhellach â Pholisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu.

6.10 Draenio Ffyrdd a'r Amgylchedd Dŵr

Mae Adran 3.10 yr Adroddiad Amgylcheddol (BCP21-002-00-00) wedi ystyried yr effeithiau posibl ar ddraenio ffyrdd a'r amgylchedd dŵr. Mae ardal yr astudiaeth ar gyfer y ddisgyblaeth hon 500m i ffwrdd oddi wrth ffin y safle.

Nid oes unrhyw gyrff dŵr wyneb y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yn ardal yr astudiaeth.

Mae dau bwll ar y safle sy'n cynnwys y pwll gwanhau gwreiddiol a phwll gwanhau newydd ei greu sy'n ymwneud â'r cyfleuster stacio HGV cyfredol. Mae ffos yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y safle. Mae pum pwll arall a thair ffos wedi'u lleoli y tu allan i arwynebedd y safle o fewn 500m.

Yn ystod y gwaith adeiladu, byddai'r risgiau i'r amgylchedd dŵr yn cael eu lleihau trwy weithredu mesurau atal llygredd fel atalwyr petrol wrth allfa'r safle a mesurau atal llygredd ar y safle i sicrhau nad yw llygredd yn mynd i mewn i gyrсияu dŵr ar y safle. Byddai cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SCDau (SAB) yn cael ei sicrhau ar gyfer draenio'r safle. Byddai unrhyw risg i'r amgylchedd dŵr yn cael ei liniaru trwy weithredu mesurau rheoli llygredd a rheoli dŵr arfer gorau, fel yr amlinellwyd yn y Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00) ac o fewn CEMP.

O ystyried cwmpas y gwaith adeiladu a chyda cytundeb ar y mesurau arfer gorau, ni ystyrir y byddai unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd dŵr yn ystod y gwaith adeiladu.

Ystyriwyd risg llifogydd fel rhan o'r strategaeth ddraenio a byddai'r system ddraenio safle arfaethedig yn cael ei chynllunio i ddarparu ar gyfer dŵr ffo wyneb o ardal y safle i ddigwyddiadau storm hyd at y digwyddiad newid hinsawdd 1:100 a mwy, heb lifogydd. Bydd dyluniad draenio terfynol y cynllun yn cael ei gymeradwyo gan y SAB priodol cyn dechrau gweithredu ar y safle.

Mae potensial ar gyfer effeithiau andwyol ar yr amgylchedd dŵr trwy ddŵr ffo arferol o gerbydau sy'n defnyddio'r safle, gwastraff anifeiliaid a chemegol, ac o ollyngiadau damweiniol o HGVs trwy'r llwybrau llygredd presennol. Fodd bynnag, byddai'r risgiau i'r amgylchedd dŵr yn cael eu lleihau i'r eithaf wrth i'r safle gael ei weithredu trwy ddefnyddio'r mesurau atal llygredd priodol a nodir yn y terfyn SDO - O.5 Rheoli Gwastraff. Mae'r cyfyngiad hwn yn sicrhau y bydd mesurau atal llygredd priodol ar waith i sicrhau nad yw'r safle'n effeithio ar yr amgylchedd. Felly, ystyrir na fydd y cynllun yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol ar ddraenio ffyrdd a'r amgylchedd dŵr.

6.11 Hinsawdd

Aseswyd y Cynllun yn erbyn dwy agwedd allweddol ar yr hinsawdd, effeithiau'r cynllun ar yr hinsawdd oherwydd allyriadau tŷ gwydr a gwytnwch y cynllun a'r asedau i ymdopi â'r newid a ragwelir yn yr hinsawdd.

Byddai asesiad Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) yn cael ei gwblhau ar gyfer y cynllun a'i nod fyddai sicrhau 'Ardderchog'.

Cynhaliwyd asesiad ansoddol o'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr hinsawdd. Seiliwyd yr asesiad ar y wybodaeth ddylunio hysbys, cymhariaeth â phrosiectau tebyg, barn broffesiynol ac ystyried cyd-destun yr allyriadau o gymharu â Chyllidebau Carbon y DU a Chymru. O ystyried maint a graddfa'r gwaith gyda chymariaethau â phrosiectau tebyg, mae'n debygol y byddai'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r cynllun yn fach iawn o gymharu â Chyllideb Carbon y DU neu Gymru. Felly mae'n annhebygol y byddai'r allyriadau'n arwain at effaith sylweddol.

Mae'r asesiad ynglŷn â gwytnwch y cynllun i newid yn yr hinsawdd yn cymharu'r amodau presennol â'r newid yn yr hinsawdd a ragwelir yn seiliedig ar ddata Rhagamcaniadau Hinsawdd y DU (UKCP18). Ar y cyfan, bydd y newid yn yr hinsawdd a ragwelir ar gyfer Cymru yn golygu hafau sychach, poethach a gaeafau gwlypach, cynhesach.

Adolygwyd y dyluniad gan ystyried y newidiadau rhagamcanol hyn a chwblhawyd asesiad risg o'r effeithiau posibl. Mae'r dyluniad hyd yma wedi ystyried nifer o agweddau ar newid yn yr hinsawdd i sicrhau bod y cynllun yn wydn. Mae hyn yn cynnwys modelu risg llifogydd sy'n dangos bod y dyluniad draenio yn gallu gwrthsefyll llifogydd 1 mewn 100 mlynedd gyda chynnydd o 30% mewn llif oherwydd newid yn yr hinsawdd. Mae'r dyluniad draenio hefyd yn dilyn dull SDCau. Ar y cyfan, o ystyried y lliniaru ymgorfforedig hwn, mae'n annhebygol y byddai unrhyw effeithiau sylweddol ar wytnwch y cynllun i newid yn yr hinsawdd, ac felly dylid ystyried bod y cynllun yn cydymffurfio â Pholisi PS 5 y CDLI: Datblygu Cynaliadwy, a'i fod yn unol â nodau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

6.12 Effeithiau Cronnol

Cyflwynwyd asesiad o effeithiau cronrol yn adran 3.12 o'r Adroddiad Amgylcheddol (BCP21-002-00-00). Mae'r asesiad yn ystyried Parth Dylanwad (ZOI) o 4km, sy'n tynnu ar y meysydd astudio a nodwyd ar gyfer pob disgyblaeth amgylcheddol. Ystyrir effeithiau cronrol ochr yn ochr â datblygiadau eraill yn y cyffiniau sydd hefyd yn debygol o arwain at effeithiau cronrol ac sydd wedi eu cadarnhau i gael eu cyflenwi dros amserlen debyg.

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol yn ystyried effeithiau cronrol. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau cronrol yn ystod y gwaith adeiladu oherwydd yr amserlen adeiladu a ragwelir (Gwanwyn 2022). Gan y byddai'r BCP yn gyfleuster parhaol, mae potensial i gael effeithiau cronrol yn ystod y cyfnod gweithredu pe bai'r Datblygiadau Perthnasol yn dod ymlaen. Fodd bynnag, gan y derbyniwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Plot 9 yn Ystâd Ddiwydiannol Parc Cybi ym mis Mawrth 2005, roedd y ddau Ddatblygiad Perthnasol a nodwyd o fewn 5km i'r safle wedi ystyried effeithiau cronrol defnyddio'r safle, gan ddod i'r casgliad y byddai effeithiau dibwys a heb fod yn sylweddol. At hynny, mae dull rhagofalus wedi'i ddefnyddio gyda'r Adroddiad Amgylcheddol i sicrhau bod yr holl effeithiau posibl yn cael eu dal a'u hasesu ac, os oes angen, eu lliniaru. O ganlyniad, ni fydd unrhyw effeithiau cronrol sy'n gysylltiedig â'r Datblygiadau Perthnasol a nodwyd yn sylweddol.

6.13 Casgliad

Mae'r asesiadau a gynhaliwyd i gefnogi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr SDO arfaethedig wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol o ganlyniad i'r cynllun. Mae hyn oherwydd mesurau dylunio a lliniaru a ymgorfforwyd yn nyluniad y cynllun, ac a

gyflwynir yn yr Amlen Gydsynio (sy'n cynnwys y Cynllun Amlen Gydsynio (BCP21-006-05-00) a'r Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00)), a thrwy hynny yn lleihau effeithiau amgylcheddol i lefelau nad ydynt yn sylweddol. Felly, dylid ystyried nad oes unrhyw ystyriaethau perthnasol a ddylai atal drafftio a chymeradwyaeth ddilynol yr SDO.

7 Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn hyrwyddo'r defnydd o Blot 9 Parc Cybi fel Safle Rheoli Ffiniau (BCP) a gydsyniwyd o dan SDO, i'w osod gan Weinidogion Cymru. Bydd y BCP terfynol ar Blot 9 Parc Cybi i wasanaethu Porthladd Caergybi yn cynnwys codi nifer o adeiladau (cyfleusterau archwilio ar gyfer cynnyrch planhigion, anifeiliaid bach, anifeiliaid mawr, ceffylau ac adeiladau swyddfa), ffensys newydd, colofnau goleuo, draenio a thirlunio cysylltiedig. Nodwyd manylion llawn y gweithiau hyn yn yr adroddiad hwn, ynghyd â manylion y lluniadau sy'n cael eu cyflwyno yn y Cynllun Ffiniau Llinell Goch (BCP21-006-03-00) a'r Cynllun Amlen Gydsynio (BCP21-006-05-00).

Yn dilyn y broses didoli safle a dyluniad ac asesiad manwl, ystyrir bod Plot 9 Parc Cybi yn briodol ar gyfer BCP parhaol, ac mae'n hanfodol i gynnal llif masnach ac i ganiatáu i nwyddau groesi ffiniau gyda'r ffrithiant lleiaf posibl i ac o Borthladd Caergybi.

Fel y dangosir yn yr adroddiad hwn, ni fyddai'r defnydd arfaethedig o'r safle fel BCP yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y datblygiadau hysbys gerllaw, ac mae'n cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn amodol ar nifer o derfynau a fydd yn cael eu nodi yn yr SDO a'u rhestru yn y Daenlen Cyfyngiadau SDO (BCP21-006-04-00) sy'n cyd-fynd â'r SDO.

Daeth yr asesiad o'r effeithiau sylweddol tebygol posibl i'r casgliad na ragwelir y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn digwydd wrth adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig, ac felly nid oes angen asesiad pellach yn ymwneud â'r camau hyn.

Felly, cesglir bod yr Adroddiad Cynllunio hwn a dogfennau cysylltiedig yn ffurfio pecyn tystiolaeth cynhwysfawr sy'n dangos yr angen i ddefnyddio SDO fel offeryn cydsynio, yr angen am y datblygiad er mwyn cydymffurfio â rheoliadau tollau, ac asesiad trylwyr o effaith y datblygiad.

A. Crynodeb o'r Hanes Cynllunio Cyfagos

Cyfeirnod Cais	Cyfeiriad	Y Datblygiad Arfaethedig	Penderfyniad
DIS/2020/92	Parc Arfordirol Penrhos, Cae Glas a Kingsland, Caerdybi	Cais i ryddhau amodau (05) (Cynllun Graddoli), (14) (Manylion cerrig naturiol), (15) (Lefelau slabiau arfaethedig), (17) (Manylion llawn yr holl ddeunyddiau a gorffeniadau allanol), (18) (Manylion llawn deunyddiau a lliwiau allanol, manylebau adeiladu unrhyw raddiannau peirianyddol, goleddfau, byndiau, yr holl waliau cynnal a chadw, pontydd ac unrhyw waith peirianeg cysylltiedig), (25) (Manylion llawn yr holl Dirwedd Amaethyddol Draddodiadol Bresennol a Nodweddion eraill ('ETAL')) (32) (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Rhagarweiniol ('PCEMP')), (33) (Cynllun Rheoli Amgylcheddol Traffig Adeiladu Rhagarweiniol ('PCTEMP')), (34) (Cynllun Rheoli Pridd ('SMP')), (35) (Cynllun Rheoli Gwastraff ('WMP')), (38) (Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig o unrhyw olion archeolegol), (40) (Systemau Draenio Cynaliadwy ('Cynllun SDS')), (44) (Cynllun Rheoli Cwlfert a Phibellau), (45) (Strategaeth Pylau a Chyrrff Dŵr), (48) (Cynllun Ecolegol Graddol), (49) (Trwyddedau rhywogaethau a warchodir), (50) (Strategaeth Monitro Ecolegol ('EMS')), (51) (Datganiad dull ar gyfer rhywogaethau a warchodir), (52) (Manylion yr holl fesurau a ddyluniwyd i rwystro dal/lladd amffibiaid ac ymlusgiaid yn achlysurol), (54) (cynllun gwneud iawn madfall ddŵr gribog), (55) (Cynllun ar gyfer cadw, gwella a thrawsleoli fflora daear presennol), (56) (Cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau planhigion goresgynnol), (66) (Llwybr Arfordirol a chynllun hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau beicio eraill) a (68) (Manylion gwaredu dŵr wyneb o ffyrdd mynediad preifat ffyrdd eraill a manau parcio) o ganiatâd cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON	Dilyswyd (06/01/2021)
S106/2020/2	Ardal Tirlenwi Cae Glas, Caerdybi	Cyflwyno ymchwiliad safle, asesiad labordy, strategaeth adfer ac asesiad risg i gydymffurfio â'r Telerau Cytundeb fel y'u nodir yn rhan 5 o Atodlen 8 o'r Cytundeb Adran 106 sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON	Caniatawyd (05/08/2020)
D56/2020/3	Parc Cybi, Caerdybi	Cais i benderfynu a oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw i godi polyn telegraff 16m, gosod ddysgl ôl-drosglwyddo, gosod cabinet telathrebu ynghyd â datblygiad ategol.	Dilyswyd (23/03/2020)
SCR/2020/1	Tir gerllaw Canolfan Hamdden Caerdybi	Barn sgrinio ar gyfer codi 30 annedd	Dim angen AEA (27/01/2020)
FPL/2019/208	Roadking Truckstop, Parc Cybi, Caerdybi	Cais ôl-weithredol ar gyfer codi portacabin i'w ddefnyddio fel swyddfa (Dosbarth Defnydd B1)	Caniatáu (04/10/2019)
SCR/2019/33	Offer Cynhyrchu Trydan, Parc Cybi, Caerdybi	Barn sgrinio ar gyfer datblygu a gweithredu gwaith cynhyrchu trydan wrth gefn ymateb cyflym tanwydd nwy (7.5MW)	Dim angen AEA (13/08/2019)
DIS/2019/73	Huws Gray, Parc Cybi, Caerdybi	Cais i ryddhau amod (11) a) (rhaglen o waith archeolegol) o ganiatâd cynllunio FPL/2018/25 (codi adeilad i'w ddefnyddio fel masnachwr adeiladwyr gydag arwynebedd llawr warws a gwerthu (defnydd sui generis), adeiladu mynediad safle cerbydol newydd, iard storio,	Rhyddhau'r amod yn rhannol (15/07/2019)

Cyfeirnod Cais	Cyfeiriad	Y Datblygiad Arfaethedig	Penderfyniad
		ardaloedd llwytho ynghyd ag ardaloedd tirlunio meddal a chaled)	
DIS/2019/4	Roadking, Parc Cybi, Caergybi,	Cais i ryddhau amod (04) (Lefelau Slabiau), (06) (Cynllun draenio budr, dŵr wyneb a chynllun draenio tir), (10) (Cynllun rheoli traffig), (11) (cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu), (13) (Goleuadau Cynllun), (14) (Samplau drychiad allanol), (18) (Cynllun Arwyddion Cymraeg) a (20) (Cynllun Cadwyn Gyflenwi Leol) o ganiatâd cynllunio19C842M/1/ECON	Rhyddhau'r amod yn rhannol (20/06/2019)
FPL/2018/25	Parc Cybi, Caergybi	Cais llawn i godi adeilad i'w ddefnyddio fel masnachwr adeiladwyr gydag arwynebedd llawr warws a gwerthu (defnydd sui generis), adeiladu mynediad safle cerbydol newydd, iard storio, ardaloedd llwytho ynghyd ag ardaloedd tirlunio meddal a chaled	Caniatawyd (06/06/2019)
SCR/2018/3	Parc Cybi, Caergybi	Barn sgrinio ar gyfer codi adeilad i'w ddefnyddio fel masnachwr adeiladwyr gydag arwynebedd llawr warws a gwerthu (defnydd sui generis), adeiladu mynediad safle cerbydol newydd, iard storio, ardaloedd llwytho ynghyd ag ardaloedd tirlunio meddal a chaled	Dim angen AEA (08/02/2019)
MAO/2019/1	Premier Inn, Caergybi	Mân ddiwygiadau i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 19C842E/1/TR/ECON er mwyn diwygio cynlluniau'r cynllun a gymeradwywyd	Caniatawyd (23/01/2019)
19C842P/1	Roadking Truckstop, Parc Cybi, Caergybi	Cais llawn i godi stablau ceffylau, adeiladau a storffeydd cysylltiedig, gosod cerddwr ceffylau ynghyd ag adeiladu ategol mynediad preifat newydd i'r arhosfan tryciau bresennol	Caniatawyd (10/01/2019)
19C842Q/1/DIS	Parc Cybi, Caergybi	Cais i ryddhau amodau (18) (Cynllun Cyflogaeth Leol) a (20) (Cynllun Twristiaeth Caergybi) o ganiatâd cynllunio er mwyn diwygio amod 19C842E/1/TR/ECON	Rhyddhau'r amod (23/11/2018)
19C842R/1/MIN	Parc Cybi, Caergybi	Mân ddiwygiadau i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 19C842E/1/TR/ECON er mwyn diwygio amod (13) cais cynllunio 19C842K/1/DIS er mwyn diwygio'r deunyddiau arfaethedig	Caniatawyd (25/10/2018)
19C842M/1/EC ON	Roadking, Parc Cybi, Caergybi	Cais llawn i godi gwesty ategol i'r arhosfan tryciau presennol, gyda maes parcio cysylltiedig, newid y fynedfa i gerbydau, seilwaith draenio a gwaith cysylltiedig arall	Caniatawyd (10/09/2018)
19C842K/1/DIS	Parc Cybi, Caergybi	Cais i ryddhau amodau (03) (lefelau slabiau), (06) (strategaeth ddraenio arfaethedig), (10) (cynllun rheoli traffig adeiladu), (11) (cynllun goleuadau allanol), (12) (deunyddiau a gorffeniadau allanol), (13) (manylyon cerrig naturiol), (17a) (Cynllun laith a Diwylliant Cymraeg) a (19) (cynllun cadwyn gyflenwi leol) o ganiatâd cynllunio 19C842E/1/TR/ECON	Rhyddhau'r amod (23/05/2018)
19C842J/1/SCR	Parc Cybi, Caergybi	Barn sgrinio i adeiladu gwesty	Dim angen AEA (18/04/2018)
19C842N/1/SCR	Roadking Truckstop, Parc Cybi, Caergybi	Barn sgrinio ar gyfer codi stablau, swyddfa/ cysgodfan beiciau cwad, ystorfa i ddillad gwely anifeiliaid/ porthiant, gosod cerddwr ceffylau ynghyd ag adeiladu mynediad preifat newydd	Dim angen AEA (28/09/2018)
19C842F/1	Roadking Truckstop, Parc Cybi, Caergybi	Cais llawn ar gyfer gosod tanc storio/ dosbarthu 24 awr a draeniad cysylltiedig gan gynnwys ataliwr	Caniatawyd (02/03/2018)
19C842H/1/DIS	Parc Cybi, Caergybi	Cais i ryddhau amod (17(b)) Cynllun (laith a Diwylliant Cymraeg) caniatâd cynllunio 19C842E/1/TR/ECON	Rhyddhau'r amod (14/12/2017)

Cyfeirnod Cais	Cyfeiriad	Y Datblygiad Arfaethedig	Penderfyniad
19C842G/1/SCR	RoadKing Truckstop, Parc Cybi, Caergybi	Barn sgrinio ar gyfer gosod tanc storio/dosbarthu ategol a draeniad cysylltiedig gan gynnwys ataliwr	Dim angen AEA (05/12/2017)
19C842E/1/TR/ECON	Parc Cybi, Caergybi	Cais llawn i adeiladu gwesty, seilwaith cysylltiedig a gwrthgloddiau	Caniatawyd (01/12/2017)
19C842D/1/SCR	Parth 1, Parc Cybi, Caergybi	Barn sgrinio i adeiladu gwesty a bwyty ynghyd â chreu mynediad newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig	Dim angen AEA (11/04/2017)
19C1195/RE/SC O	Caergybi a Fali	Barn gwmpasu ar gyfer y datblygiad cysylltiedig ar y lan a lleoliad glanio ceblau mewn cysylltiad â datblygu Parth Datblygu Llanw Morlais arfaethedig oddi ar arfordir Caergybi	Penderfyniad ddim ar gael (10/01/2017)
46C427K/TR/EI A/ECON	Parc Arfordirol Penrhos, Cae Glas a Kingsland, Caergybi	Cais cynllunio hybrid yn cynnig: Amlinelliad gyda'r holl faterion wedi'u cadw heblaw am fynediad, ar gyfer: Pentref hamdden ym Mharc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caergybi sy'n cynnwys: hyd at 500 o unedau hamdden newydd gan gynnwys porthdai a bythynnod newydd; Adeilad hyb newydd canolog yn cynnwys derbynfa gyda chyfleusterau hamdden gan gynnwys parc dŵr is-drofannol dan do, neuadd chwaraeon dan do, a chaffis, bariau, bwytai a manwerthu; Adeilad Marchnad Ffermwyr newydd canolog; Adeilad sba a hamdden newydd canolog; Caffi a chanolfan chwaraeon dŵr newydd ar safle'r hen Boathouse; Dymchwel y Tŷ Ymdrochi ac adeiladu bwyty yn ei hen leoliad; Dymchwel adeiladau eraill sy'n bodoli eisoes gan gynnwys tair ysgubor amaethyddol a thair annedd breswyl; Darparu a chynnal 29 hectar o fannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd gyda maes parcio cyhoeddus a gwelliannau i'r Llwybr Arfordirol, gan gynnwys: Rhodfeydd wedi'u rheoli o fewn 15 hectar o goetir, cadw a gwella pwll Grace, Pwll Lili, pwll y Sgowtiaid gyda llwyfannau gwyllo, y Fynwent Anifeiliaid Anwes, Cofeb Ryfel, y Pwmpdy a'r ardal bicnic gyda gorsafedd bwydo adar a chuddfannau gydag arwyddion dehongli addysgol a dwyieithog wedi'u creu drwyddynt; Creu llwybr cerflun coetir newydd a llwybrau pren a gwell cysylltiad â'r Llwybr Arfordirol; Bydd y traeth yn parhau i fod yn hygyrch i'r cyhoedd gan ddarparu mynediad diogel i'r dŵr silffoedd bas; Canolfan Gwres a Phŵer Cyfunedig Tir yng Nghae Glas: Codi llety a chyfleusterau pentref hamdden sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio i ddechrau fel canolfan llety gweithwyr adeiladu dros dro ar gyfer Wylfa B ar dir yng Nghae Glas, Parc Cybi, Caergybi sy'n cynnwys: Hyd at 315 o borthdai a fydd yn cael eu hisrannu i ddechrau ar gyfer llety gweithwyr niwclear; Adeilad hyb canolog sy'n darparu derbynfa a ffreutur ategol i lety; Cyfleuster Parcio a Theithio sy'n cynnwys hyd at 700 o leoedd parcio ceir; Gwesty newydd; Hyb ar lan y llyn sy'n cynnwys bwyty, caffi, manwerthu a bar; Cae pêl-droed glaswellt a chae criced newydd; a Chanolfan Gwres a Phŵer Cyfun. I'w drosi wedi hynny (ar ôl adeiladu Wylfa B) yn estyniad i Bentref Hamdden Parc Arfordirol Penrhos sy'n cynnwys: Llety wedi'i ailwampio ac adeiladau cyfleusterau i greu llety gwyliau o ansawdd uchel (hyd at 315 o borthdai teulu); Canolfan Ymwelwyr a Gwarchodfa Natur sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus dan reolaeth; a Chanolfan Treftadaeth gyda pharcio i	Caniatawyd (19/04/2016)

Cyfeirnod Cais	Cyfeiriad	Y Datblygiad Arfaethedig	Penderfyniad
		ymwelwyr. Tir yn Kingsland: Codi datblygiad preswyl sydd wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio i ddechrau fel llety gweithwyr adeiladu dros dro ar dir yn Kingsland, Ffordd Kingsland, Caerdybi sy'n cynnwys: Hyd at 320 o dai newydd i'w defnyddio i ddechrau fel llety gweithwyr adeiladu dros dro. I'w trosi wedi hynny (ar ôl adeiladu Wylfa B) yn ddatblygiad preswyl sy'n cynnwys: Hyd at 320 o anheddau preswyl wedi'u gosod mewn tirlunio o ansawdd uchel a mannau agored. Bydd gan bob cam o'r datblygiad ddatblygiad ategol sy'n cynnwys parcio ceir, ardaloedd gwasanaethu, mannau agored a gwaith. Manylion llawn ar gyfer newid defnydd adeiladau'r Ystad bresennol ym Mharc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caerdybi gan gynnwys y newid defnydd ar gyfer: Tŵr y Beiliaid ac adeiladau allanol yn Fferm Gartref Penrhos o glwb criced i ganolfan wybodaeth i ymwelwyr, bwty, caffi, bariau a manwerthu; Ysgubor Fferm Gartref ac Adeiladau Cert o adeiladau fferm i ganolfan llogi beiciau a chwaraeon; Y Tŵr o swyddfa breswyl i reolwr a swyddfa ategol; a Thŷ Beddmanarch o ddefnydd preswyl i ganolfan ymwelwyr	
19C842C/1/MIN	Parc Cybi, Caerdybi	Mân ddiwygiad i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 19C842P/ECON er mwyn cynnwys gorsaf ail-lenwi cerbydau HG	Caniatawyd (05/02/2015)
19C842Y	Parc Cybi, Caerdybi	Cais llawn ar gyfer adeiladu estyniad i'r hyb trafndiaeth cydsyniedig gan gynnwys creu tirlunio ac ardaloedd gwella ecolegol	Caniatawyd (06/01/2015)
19C842B/1/DEL	Parc Cybi, Caerdybi	Cais o dan Adran 73 i gael gwared ar amod (15) (ehangu all-slipffyrdd yng nghyffordd 2 yr A55) o ganiatâd cynllunio cyf. 19C842P/ECON (cais amlinellol ar gyfer adeiladu a gweithredu hyb trafndiaeth a chyfleusterau gwasanaethu ategol)	Caniatawyd (19/12/2014)
19C842Z/SCR	Parc Cybi, Caerdybi	Barn sgrinio ar gyfer adeiladu estyniad i'r hyb trafndiaeth cydsyniedig gan gynnwys creu ardaloedd tirlunio a gwella ecolegol	Dim angen AEA (25/11/2014)
19C842X/DIS	Parc Cybi, Caerdybi	Cais i ryddhau amod (14) (manylion goleuadau allanol arfaethedig y safle) o ganiatâd cynllunio cyf. 19C842Q/ECON	Rhyddhau'r amod (04/11/2014)
19C842W/DIS	Parc Cybi, Caerdybi	Cais i ryddhau amod (04) (samplau o'r deunyddiau y bwriedir eu defnyddio ar arwynebau allanol y datblygiad) o ganiatâd cynllunio 19C842P/ECON	Rhyddhau'r amod (12/09/2014)
19C842V/ECON /DIS	Parc Cybi, Caerdybi	Cais i ryddhau amodau (04) (deunyddiau y bwriedir eu defnyddio ar arwynebau allanol y datblygiad), (07) a (08) (cynllun ar gyfer draenio'r safle yn gynhwysfawr ac yn integredig), (09) (amserlen gwaith archeolegol) a (10) (cynllun manwl a lleoliadau mesurau lliniaru ynghyd ag amseriad eu cyflenwi a manylion eu gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol) o ganiatâd cynllunio amlinellol cyf. 19C842P/ECON	Rhyddhau yn rhannol (20/05/2014)
19C842U/ECON /DA	Parc Cybi, Caerdybi	Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl ar gyfer adeiladu a gweithredu hyb trafndiaeth a chyfleusterau gwasanaethu ategol gan gynnwys gwrthgloddiau paratoadol, tirlunio a seilwaith cysylltiedig	Caniatawyd (28/04/2014)
19C842P/ECON	Parc Cybi, Caerdybi	Cais amlinellol ar gyfer adeiladu a gweithredu hyb trafndiaeth a chyfleusterau gwasanaethu	Caniatawyd (05/08/2013)

Cyfeirnod Cais	Cyfeiriad	Y Datblygiad Arfaethedig	Penderfyniad
		ategol gan gynnwys gwrthgloddiau paratoadol, tirlunio a seilwaith cysylltiedig	
19C842Q/ECON	Parc Cybi, Caerdybi	Cais amlinellol ar gyfer adeiladu a gweithredu depo logisteg, gan gynnwys gwrthgloddiau paratoadol, tirlunio a seilwaith cysylltiedig	Caniatawyd (05/08/2013)
19C842R/SCR/ECON	Parc Cybi, Caerdybi	Barn sgrinio ar gyfer adeiladu a gweithredu hyb trafndiaeth a chyfleusterau gwasanaethu ategol gan gynnwys gwrthgloddiau paratoadol, tirlunio a seilwaith cysylltiedig	Dim angen AEA (04/03/2013)
19C842T/SCR/ECON	Parc Cybi, Caerdybi	Barn sgrinio ar gyfer adeiladu a gweithredu depo logisteg, gan gynnwys gwrthgloddiau paratoadol, tirlunio a seilwaith cysylltiedig	Dim angen AEA (04/03/2013)
19C842J/ECON	Plotiau 1 a 7, Parc Cybi, Caerdybi	Cais llawn ar gyfer codi 3 uned swyddfa a 4 uned warws diwydiannol ynghyd â darpariaeth seilwaith a pharcio	Caniatawyd (07/05/2010)

B. Adroddiad Sifftio Safle BCP21-006-07-00

